# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol 'Gwnaed'**

**2.1 SL(6)394 - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.2 SL(6)400 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Diwygio) 2023**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol 'Gwnaed'**

**3.1 SL(6)393 - Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 3 - 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.2 SL(6)396 - Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023**

(Tudalennau 7 - 9)

Gorchymyn [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 3 - Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)397 - Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 10 - 11)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 4 - Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

(13.40 - 13.45)

**4.1 SL(6)388 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 12 - 22)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 5 – Adroddiad

LJC(6)-30-23 – Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(6)392 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

(Tudalennau 23 – 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-30-23 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

(13.45 – 13.50)

**5.1 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023**

(Tudalennau 26 – 29)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 9 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 24 Hydref 2023

LJC(6)-30-23 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 24 Hydref 2023

**5.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Gohirio cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru**

(Tudalen 30)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 24 Hydref 2023.

**5.3 Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Trothwyon) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 31 – 32)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 12 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 27 Hydref 2023

**5.4 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 33 - 36)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 13 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 30 Hydref 2023

LJC(6)-30-23 – Papur 14 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 30 Hydref 2023

## 6 Papurau i'w nodi

(13.50 - 13.55)

**6.1 Gohebiaeth â Phrif Weinidog Cymru: y Protocol yn diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (Protocol Palma)**

(Tudalennau 37 - 40)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 15 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 23 Hydref 2023

LJC(6)-30-23 – Papur 16 – Llythyr at Brif Weinidog Cymru, 29 Medi 2023

**6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Arferion o ran gosod llety preswyl**

(Tudalen 41)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 – Papur 17 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Hydref 2023

**6.3 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cynnydd gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**

(Tudalen 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 18 - Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 26 Hydref 2023

**6.4 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026 - Adroddiad Blynyddol 2022-23**

(Tudalennau 43 - 81)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 19 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 1 Tachwedd 2023

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.55)

## 8 Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad drafft

(13.55 - 14.30) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 20 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

(14.30 - 14.45) (Tudalennau 82 - 101)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 21 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-30-23 - Papur 22 - Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaethau Cyhoeddus, 1 Tachwedd 2023

LJC(6)-30-23 - Papur 23 - Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol oddi wrth y Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 16 Hydref 2023

## 10 Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE: Trafod yr adroddiad drafft

(14.45 - 15.10) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 24 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig: Ystyried y papur trafod

(15.10 - 15.25) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 25 - Papur trafod [Saesneg yn unig]

## 12 Adroddiad Blynyddol

(15.25 - 15.40) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-30-23 - Papur 26 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 06 Tachwedd 2023

## SL(6)394 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993").

Mae Rheoliadau 1993 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir newid rhestr brisio. Mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau hynny yn pennu'r diwrnod y mae newid yn cael effaith ohono.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diwrnod y mae newid yn cael effaith ohono pan fydd y rhestr yn cael ei newid oherwydd cynnydd materol yng ngwerth eiddo, a phan ddylid trin annedd fel dwy annedd neu ragor yn unol â Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy) 1992. O dan y ddau amgylchiad mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r diwrnod fel y diwrnod y cofnodir y newid yn y rhestr.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn, ym mharagraff 4.1, yn nodi bod y diwygiadau hyn:

> "*...amddiffyn trethdalwyr rhag ôl-ddyledion treth gyngor sy'n deillio o oedi gweinyddol yn y broses o newid bandiau prisio*".

**Rhiant-Ddeddf:** Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993

**Fe'u gwnaed ar:** 11 Hydref 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Hydref 2023

**Yn dod i rym ar:** 08 Tachwedd 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 06 Tachwedd 2023

## SL(6)400 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, yn benodol:

(i) diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 drwy ychwanegu “llety digartrefedd dros dro y sector preifat” (a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn) at y rhestr o denantiaethau a thrwyddedau na fyddant byth yn cael troi'n gontractau meddiannaeth;

(ii) diwygio'r diffiniad o “llety Gwely a Brecwast” yn erthygl 2 o Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015.

Yr effaith y bwriedir i’r ddeddfwriaeth ei chael yw sicrhau bod pobl sy'n ddigartref ac y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cymorth a llety iddynt, yn parhau i gael eu lletya mewn llety gwely a brecwast heb i gontract meddiannaeth godi.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**Fe’u gwnaed ar:**

**Fe’u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 30 Tachwedd 202

# SL(6)393 – Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 ("Rheoliadau 1979") i ddarparu ar gyfer materion gweithdrefnol sy'n deillio o adrannau newydd sydd wedi'u mewnosod yn Neddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967") gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae'r diwygiadau'n nodi cyfnodau rhagnodedig sy'n ymwneud â gorchmynion diogelu coed a hawliadau am ddigolllediad, a chyfnodau rhagnodedig a'r dull o apelio am apelau sy'n ymwneud â thrwyddedau cwympo.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y naw pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 1(4), diffinnir Deddf Coedwigaeth 1967 fel "y Ddeddf" yn y Rheoliadau hyn, ond ni ddefnyddir y term "y Ddeddf" wedyn yng nghorff y Rheoliadau. Dim ond yn y diwygiadau gan y Rheoliadau hyn i destun Rheoliadau 1979 y defnyddir y term, ond mae "y Ddeddf" eisoes wedi'i ddiffinio yn Rheoliadau 1979 ac felly nid oes angen ei ddiffinio yn y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliadau 4 a 7 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Rheoliadau 1979. Mae penawdau'r darpariaethau newydd yn cyfeirio at rifau adrannau o Ddeddf 1969, ond nid ydynt yn mynd ymlaen wedyn i gynnwys y geiriau "of the Act". Er y gellir tybio'r ystyr o weddill y darpariaethau sydd i'w mewnosod yn Rheoliadau 1979, mae'r penawdau newydd yn anghyson â gweddill darpariaethau tebyg yn Rheoliadau 1979 ac nid ydynt yn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Rheoliadau.

Yn yr un modd, mae'r penawdau sy'n rhagflaenu rheoliadau 5 a 7 yn cyfeirio at adrannau ond nid ydynt yn cyfeirio at y Ddeddf y maent yn dod ohoni. Mae'r pennawd sy'n rhagflaenu rheoliad 5 hefyd yn cyfeirio at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru nad yw'n cael ei ddiffinio at ddiben y Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliadau 5 a 7 yn mewnosod rheoliadau newydd 14A a 15A yn y drefn honno yn Rheoliadau 1979. Drwy'r rheoliadau newydd hyn cyfeirir at adrannau, ond ar y rhan fwyaf o'r achlysuron pan fydd hyn yn digwydd, ni phennir o ba Ddeddf y mae'r adrannau hyn yn dod. Dylai'r cyfeiriadau at adrannau gael eu dilyn gan "of the Act" ar bob achlysur yn rheoliadau newydd 14A a 15A i sicrhau eglurder a chysondeb â gweddill Rheoliadau 1979.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad newydd 15A sydd i'w fewnosod yn Rheoliadau 1979 gan reoliad 7 gwneir sawl cyfeiriad at rifau adrannau, ond mae'r gair "section" ar goll ar sawl achlysur.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad newydd 14A(2) sydd i'w fewnosod yn Rheoliadau 1979 gan reoliad 5, defnyddir y gair "shall". Mae "shall" yn amwys oherwydd y gellir ei ddefnyddio i gyfeirio at y dyfodol, i osod rhwymedigaethau, neu mewn ystyr datganiadol. Er y gellid ei ddefnyddio i sicrhau bod terminoleg yn gyson â gweddill Rheoliadau 1979, mae geiriad tebyg yn rheoliad newydd 14A(1) yn defnyddio'r gair "must", sy'n rhoi mwy o eglurder i'r darllenydd.

Yn yr un modd, yn rheoliad newydd 15A(2) a (3) a fewnosodir gan reoliad 7 ceir datganiadau datganiadol fel a ganlyn: "the prescribed period for claiming expenses reasonably incurred…. will be eighteen months". Fodd bynnag, ar y llaw arall, yn rheoliadau newydd 4A(1), 13A(1) a 15A(4), mae'r geiriad fel a ganlyn: "the prescribed period is…" sy'n rhoi mwy o eglurder. Felly, nid oes eglurder ynghylch y defnydd o "will be" wrth ddrafftio'r rheoliad newydd 15A(2) a (3) ac mae hefyd yn anghyson â'r dull o ymdrin â'r diwygiadau eraill i'r testun wrth ragnodi cyfnodau amser.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad newydd 14A(2) a (3), a rheoliad newydd 15A(2), a fewnosodir gan reoliadau 5 a 7 yn y drefn honno, ceir cyfnodau amser a ddisgrifir fel "beginning on the day". Fodd bynnag, mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, Drafftio Deddfau i Gymru, yn nodi na ddylid disgrifio cyfnodau amser fel rhai sy'n dechrau "ar" ddiwrnod oherwydd y gall greu amheuaeth ynghylch faint o'r gloch yn union ar y diwrnod y bydd y cyfnod amser yn dechrau. Mae'r canllawiau'n argymell disgrifio cyfnodau amser fel rhai sy'n dechrau "â'r"

diwrnod. Felly, nid yw drafftio'r diwygiadau hyn i'r testun yn dilyn canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru ei hun wrth ddisgrifio dechrau cyfnodau amser.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Ym mharagraff 5b o'r Ffurflen newydd 1A a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau, cyfeirir at "regulation 15A(4)", ond ni roddir unrhyw wybodaeth ynghylch at ba reoliadau y cyfeirir atynt. Er y ceir Ffurflen 1A yn Rheoliadau 1979, yn ymarferol bydd pobl yn ei defnyddio ar wahân, nid fel rhan o Reoliadau 1979, ac felly ni fydd gan y defnyddiwr unrhyw bwynt cyfeirio i benderfynu beth mae rheoliad 15A(4) yn ei ddweud.

Dylid nodi hefyd na roddir diffiniad yn y ffurflenni ar gyfer "the Act" na "the NRBW", a allai eto, oherwydd y modd y bydd y ffurflenni hyn yn cael eu defnyddio'n ymarferol, wneud pethau'n ddryslyd i'r darllenydd ac mae'n anghyson â'r dull o ymdrin â'r ffurflenni presennol yn Rheoliadau 1979.

Ceir cyfeiriadau anghyflawn hefyd yn Ffurflen 1A a Ffurflen 9A, lle y nodir rhifau adrannau ond na chânt eu dilyn gan unrhyw gyfeiriad at Ddeddf. Mae hyn yn anghyson â geiriad y ffurflenni presennol yn yr Atodlenni i Reoliadau 1979 ac nid oes eglurder i'r darllenydd.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Ffurflen newydd 1A, nid yw'n ymddangos ei bod yn bosibl i baragraffau 6 a 7 fod yn gymwys ar yr un pryd, gan fod paragraff 6 yn gofyn am gadarnhad nad oes hysbysiad arall wedi'i roi eto a bod paragraff 7 yn gofyn am fanylion hysbysiadau eraill a roddwyd. Ymddengys y dylai'r paragraffau hyn fod wedi'u drafftio fel dewisiadau amgen a dylid gwahodd y defnyddiwr i ddileu fel y bo'n briodol, fel mewn rhannau eraill o'r ffurflen.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn Ffurflen newydd 9A, ym mharagraff 1, mae'n ofynnol i'r apelydd nodi rhif yr adran berthnasol o'r hysbysiad lle y mae'n datgan "under Section.... [enter section here] of the Forestry Act 1967." Fodd bynnag, ym mharagraff 4 o'r un Ffurflen ac ym mharagraff 1 o Ffurflen newydd 1A, rhestrir rhifau'r gwahanol adrannau i'r defnyddiwr eu dileu fel y bo'n briodol yr ymddengys ei bod yn gwneud y ffurflen yn haws ei llenwi. Felly, mae hyn yn gofyn am eglurhad ynghylch pam y mae paragraff 1 wedi'i ddrafftio mewn ffordd wahanol i'r darpariaethau eraill hynny ac sy'n ei gwneud yn fwy anodd i'r hawlydd lenwi'r ffurflen.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Hydref 2023**

# SL(6)396 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau ("y Gorchymyn") yn sefydlu cynlluniau masnachu ar gyfer Prydain Fawr.

Mae'r Gorchymyn yn ymdrin â phedwar cynllun masnachu a fydd yn gweithredu trwy gyfyngu ar nifer y cerbydau newydd nad ydynt yn ddi-allyriadau y gellir eu cofrestru ym Mhrydain, ac ar lefel yr allyriadau CO2 a ganiateir o gerbydau o'r fath, fel rhan o'r pontio i gerbydau di-allyriadau. Bydd y fframwaith polisi hwn yn cymryd lle Rheoliad Allyriadau CO2 Ceir a Faniau Newydd presennol y DU, a ddaw i ben ym Mhrydain Fawr ar ddiwrnod cychwyn y Gorchymyn hwn ond a gedwir yng Ngogledd Iwerddon am y tro.

Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn darparu y bydd y cynlluniau masnachu'n cyfyngu ar allyriadau CO2 sy'n deillio o gofrestru ceir a faniau newydd, neu'n annog cyfyngu arnynt, ac adlewyrchir y diben hwn hefyd yn erthygl 4(2) o'r Gorchymyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu y bydd y Gorchymyn yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau Cymru a nod Sero Net Cymru a'r Deyrnas Unedig.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraff 2.2):

> *"Gan mai Senedd y DU fydd yn craffu ar y Gorchymyn, ni[d] ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol creu na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog."*

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Diffinnir y term *"banked"* at ddibenion Penodau 1 a 3 o Ran 3 o'r Gorchymyn. Fodd bynnag, caiff ei ddefnyddio hefyd yn erthygl 77(l) ac (m) yng nghyd-destun *"banked CRTS allowances"* a *"banked VRTS allowances"* yn y drefn honno. Gan y ceir erthygl 77 yn Rhan 4 o'r Gorchymyn, nid yw'r diffiniad o *"banked"* yn estyn i'r darpariaethau hynny ac mae'r term yn parhau i fod heb ei ddiffinio at y diben hwnnw. Yn yr un modd ag y diffinnir *"CRTS allowance"* a *"VRTS allowance"* at ddibenion y Gorchymyn yn ei gyfanrwydd yn erthygl 3(1), gall fod wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r diffiniad o *"banked"* wedi ei estyn i Ran 4 neu i'r Gorchymyn cyfan.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r ymadrodd *"relevant national authorities"* yn ymddangos yn erthygl 96(3) o'r Gorchymyn, a pharagraffau 3 a 5 o Atodlen 3 iddo. Mewn dau o'r achosion hyn, diffinnir yr ymadrodd mewn troednodyn fel ystyr fel y'i diffinnir yn adran 47 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Nid yw'n ymddangos bod rheswm amlwg dros gynnwys y diffiniad mewn troednodiadau, sy'n rhannau anweithredol o'r testun, yn hytrach nag yng nghorff y Gorchymyn ei hun, er enghraifft yn erthygl 3(1) (dehongli).

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 110(16)(f) yn hepgor yr ymadrodd *"in domestic law or, as the case may be, as that Regulation has effect"* yn y ddau le y mae'n digwydd, o bwynt 1.2.4 yn Rhan A o Atodiad 3 i Reoliad (UE) 2019/631. Fodd bynnag, nid yw'r ymadrodd hwn yn ymddangos ym mhwynt 1.2.4. Nodir bod yr ymadrodd *"in domestic law and as that Regulation has effect"* yn ymddangos ym mhwynt 1.2.4 ar 3 achlysur ac mae'n bosibl mai dyma'r ymadrodd y bwriedir ei hepgor.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 110(16)(h) yn disodli'r ymadrodd *"light commercial vehicle"* ag *"NI light commercial vehicle"* ym mhwynt 2 yn Rhan A o Atodiad 3 i Reoliad (UE) 2019/631. Fodd bynnag, mae'r ymadrodd *"light commercial vehicle"* yn ymddangos ar ddau achlysur ym mhwynt 2 ac nid yw'n glir a fwriedir i erthygl 110(6)(h) newid un achos (ac, os felly, pa un) neu'r ddau achos.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ac eithrio mewn perthynas â phwynt 1.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Hydref 2023**

Eitem 3.3

# SL(6)397 – Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio'r hyn a olygir gan adeilad risg uwch at ddibenion adran 120I o Ddeddf Adeiladu 1984 (Deddf 1984), a fewnosododd Rhan 3 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn Neddf 1984. Mae hyn yn gwneud darpariaeth i adeiladau risg uwch fod yn ddarostyngedig i drefn reoleiddiol fanylach yn ystod y cyfnod dylunio ac adeiladu.

Mae rheoliad 3 yn diffinio adeilad risg uwch fel adeilad sydd naill ai o leiaf 18 metr o uchder neu sydd ag o leiaf 7 llawr, pan fo bob amser yn cynnwys o leiaf un uned breswyl neu pan fo'n ysbyty, yn gartref gofal neu'n gartref plant.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer mesur uchder adeilad.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer cyfrifo nifer y lloriau mewn adeilad.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer eithriadau i'r diffiniad o adeilad risg uwch. Ni fydd adeiladau o'r fath yn ddarostyngedig i'r drefn reoleiddiol fanylach.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, nid yw'n glir pam y mae diffiniad penodol o "annedd" wedi'i gynnwys, a pham mai dim ond at gynnwys fflat y mae'n cyfeirio'n uniongyrchol. Mae'r diffiniad o "uned breswyl" yn eang, ac mae'n cynnwys annedd neu "unrhyw uned llety byw arall…". Mae'n debygol y byddai fflat yn dod o fewn ystyr arferol aelod (a) o'r diffiniad fel "annedd" ac y byddai hefyd yn dod o fewn y diffiniad eang iawn o (b) "unrhyw uned llety byw arall…". O'r herwydd, gall y dewis i ddiffinio "annedd" i gynnwys fflat, ac yna diffinio "fflat" ei hun fel safle y caiff ei rannu'n llorweddol achosi dryswch i ddarllenydd. Mae'r diffiniadau yn ei gwneud yn aneglur beth allai

statws fflat deulawr neu annedd debyg fod, sy'n rhychwantu gwahanol loriau ac a allai fod â rhaniadau fertigol a llorweddol i ddarparu ar gyfer grisiau preifat er enghraifft. Yn ddiweddarach, mae'r darllenydd yn canfod y byddai "uned breswyl" yn debygol o gynnwys fflat deulawr beth bynnag. O'r herwydd, mae cynnwys y diffiniad o "annedd" a "fflat" yn gofyn am eglurhad pellach, gan fod ystyr i'r ddau sy'n hysbys mewn iaith gyffredin, nad yw'n ymddangos bod y rheoliadau'n dymuno gwyro oddi wrthynt. Mae'n ymddangos bod y diffiniad o "uned breswyl" wedi'i ddrafftio'n glir heb fod angen y diffiniadau ategol ychwanegol hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, mae i "lluoedd Ei Fawrhydi" yr un ystyr â "His Majesty's forces" yn Neddf y Lluoedd Arfog 2006. Ond nodir rhif yr adran berthnasol lle y gellir dod o hyd i'r term yn Neddf y Lluoedd Arfog 2006 yn nhroednodyn (3) ar dudalen 3. Mae hyn hefyd yn digwydd yn y diffiniad o "llu ar ymweliad" sydd â'r un ystyr ag y mae at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952. Ond nodir rhif yr adran berthnasol o'r Ddeddf honno yn nhroednodyn (2) ar dudalen 4. Nid yw'n ymddangos bod rheswm amlwg dros gynnwys rhifau'r adrannau perthnasol mewn troednodiadau, sy'n rhannau anweithredol o'r testun, yn hytrach nag yn y diffiniadau eu hunain.

Yn yr un modd, mae'r diffiniadau o "cartref gofal" a "cartref plant" yn cyfeirio at wasanaeth cartref gofal a gwasanaeth llety diogel o fewn yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Ond maent hefyd yn methu â nodi'r darpariaethau penodol pan fo'r telerau hynny'n cael eu diffinio a phan fo ystyr yn cael ei roi iddynt at ddibenion Rhan 1 yn y Ddeddf honno. Mae hyn hefyd yn digwydd yn y diffiniad o "ysbyty" wrth gyfeirio at "ysbyty annibynnol" o fewn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000. Felly, rhaid i'r darllenydd chwilio'r Deddfau hynny i ddarganfod lle y ceir y termau ynddynt.

Byddai'n well cynnwys rhifau'r adrannau perthnasol yn y diffiniad ym mhob achos, er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddod o hyd i'r diffiniadau sy'n cael eu defnyddio yn yr offeryn hwn a'u deall.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Hydref 2023**

# SL(6)388 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 yn darparu ar gyfer gwasanaethau offthalmig sylfaenol o dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ("GIG") yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli, yn cydgrynhoi ac yn dirymu Rheoliadau blaenorol yn y maes hwn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn atgynhyrchu, i raddau helaeth, ddarpariaethau'r Rheoliadau a ddirymir mewn cysylltiad â'r trefniadau sydd i'w gwneud gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau offthalmig cyffredinol (profion golwg).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio llygaid o dan y GIG yng Nghymru. Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "wasanaethau offthalmig sylfaenol" yn cyfeirio at wasanaethau offthalmig cyffredinol ac at wasanaethau archwilio llygaid.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 22 o bwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, rhoddir yr un diffiniadau ag sydd yn narpariaethau dehongli Deddfau neu offerynnau statudol eraill, neu ag a geir yn ddiweddarach yn y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae llawer o'r diffiniadau hyn yn methu â nodi yn union ble y gellir dod o hyd i'r diffiniad mewn adran neu baragraff. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r darllenydd ddod o hyd i'r diffiniadau. Mae hefyd yn achosi problemau o ran diffinio ystyr rhai o'r termau lle'r oedd y cyfeiriadau amwys yn methu â gwahaniaethu rhwng termau neu gysyniadau tebyg a geir yn y darpariaethau a nodwyd. Mae'r broblem hon yn digwydd yn rheolaidd drwy weddill y Rheoliadau hyn:

a. mae'r ddau ddiffiniad o "optegydd cyflenwi" ac "optometrydd" yn cyfeirio at berson sydd wedi'i gofrestru yn "**y gofrestr** a gynhelir o dan **adran 7** o Ddeddf Optegwyr 1989" sy'n awgrymu mai un gofrestr sydd. Fodd bynnag, dylai nodi "adran 7(b)" ac "adran 7(a)" yn y drefn honno gan fod cofrestrau ar wahân ar gyfer y ddau broffesiwn i nodi eu hunion leoliadau a gwahaniaethu rhyngddynt. Am yr un rheswm, mae'r geiriau mewn cromfachau yn anghywir gan y dylent ddefnyddio'r enw lluosog "cofrestr**au** optegwyr" fel a geir uwchben adran 7 o'r Ddeddf honno oherwydd mai 2 gofrestr sydd.

b. rhoddir yr ystyr i'r ddau ddiffiniad o "archwiliad llygaid" a "gwasanaethau archwilio llygaid" yn "rheoliad 3". Ond, dylai nodi "rheoliad 3(3)(a)" a "rheoliad 3(3)(b)" yn y drefn honno i nodi eu hunion leoliadau ac i wahaniaethu rhyngddynt;

c. rhoddir yr ystyr i'r diffiniadau o "gwasanaethau offthalmig cyffredinol" a "gwasanaethau offthalmig sylfaenol" yn rheoliad 4. Ond, dylai nodi y'u ceir yn "rheoliad 4(a)" a "rheoliad 4(b)" yn y drefn honno i nodi eu hunion leoliadau ac i wahaniaethu rhyngddynt;

d. mae'r diffiniad o "Addysg a Gwella Iechyd Cymru" yn nodi mai ei ystyr yw'r "corff a sefydlwyd gan Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017". Byddai'n fwy manwl gywir nodi'r ddarpariaeth benodol yn y Gorchymyn hwnnw - "a sefydlwyd **o dan erthygl 2 o** Orchymyn....2017", fel y gwnaed yn y diffiniad o "Tribiwnlys Haen Gyntaf";

e. rhoddir i'r diffiniadau o "digwyddiadau cychwynnol", "y gofrestr" a "practis symudol" i gyd yr ystyr a geir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn. Mae Atodlen 3 yn Atodlen hir a gellid ei gwneud yn gliriach y'u ceir i gyd "**ym mharagraff 18 o** Atodlen 3".

f. rhoddir i'r diffiniadau o "rhestr offthalmig" a "rhestr atodol" yr ystyron a geir yn rheoliad 10. Gallai hyn nodi'n fwy manwl gywir "yn rheoliad 10(2)(a)" ac "yn rheoliad 10(2)(b)" yn y drefn honno i nodi eu hunion leoliadau ac i wahaniaethu rhwng y gwahanol restrau;

## 2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn rheoliad 2, ar ddiwedd y diffiniad o "cyflogaeth", ceir rhestr o dermau cysylltiedig eraill sydd i'w dehongli yn unol ag ystyr "cyflogaeth". Fodd bynnag, ymddengys nad oes angen hyn gan fod adran 9 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu ar ei gyfer. At hynny, mae'r term "cyflogwr" eisoes wedi'i ddiffinio ar wahân fel term yn rheoliad 2. Ceir diffiniad arall hefyd o "cyflogai" ym mharagraff 18(5) o Atodlen 4.

Mae'r un broblem yn digwydd ym mharagraff 18(5) o Atodlen 4 lle y mae rhaid dehongli "cyflogi" yn unol â'r ystyr a roddir i "cyflogai".

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 4(a), mae'r cyfeiriad at "baragraff 23" yn methu â nodi'r union leoliad lle y gellir dod o hyd iddo gan nad oes Atodlen wedi'i nodi yn y cyfeiriad. Ymddengys ei fod yn cyfeirio at baragraff 23 "**o Atodlen 4**" i'r Rheoliadau hyn.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 7(4), ceir cyfeiriad at "baragraff **(2)(n)** o'r Atodlen honno" ond mae'n methu â nodi'r paragraff penodol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn. Mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at "baragraff **1(2)(n)** o'r Atodlen honno" ac os felly dylai'r rhif paragraff "1" ymddangos yn y cyfeiriad hwnnw.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 12, yn y testun Cymraeg, ym mhenawdau Pennod 3, rheoliad 12 a rheoliad 14, ac yng nghorff rheoliad 12(3) a (4), a rheoliad 28(1)(b) a (7), pryd bynnag y defnyddir yr ymadrodd "cynnwys", mae'r geiriau "yr ymarferydd" wedi'u hychwanegu yn y cyfieithiad i wneud synnwyr gramadegol ac i gyfleu ystyr y brawddegau.

Defnyddiwyd yr un dull hefyd i gyfieithu "dileu" mewn lleoedd fel ym mhenawdau Pennod 4 a rheoliadau 17 a 19, yng nghorff rheoliad 17(6) a (10) ac ym mhenawdau Rhan 5 a pharagraffau 12, 13 a 14 yn Atodlen 3. Mae hyn yn golygu y defnyddir "ymarferydd" yn hytrach nag "ymarferydd cymwysedig" yn y testun Cymraeg.

Fodd bynnag, y term diffiniedig yw "ymarferydd cymwysedig" ac am y rheswm hwnnw dyna'r hyn a ddylai fod wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 13(5), mae'r ddarpariaeth yn nodi bod rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried "**y ffactorau**" a nodir ym mharagraff 10 o Atodlen 3. Fodd bynnag, mae paragraff 10 o'r Atodlen honno'n cyfeirio at "**y ffeithiau**" y mae rhaid eu hystyried er y cyfeirir at "ffactorau" ym mharagraffau 14 i 17 o Atodlen 3. Felly, nid yw'r drafftio yn gyson â'r hyn a geir ym mharagraff 10 o Atodlen 3, oni bai bod y cyfeiriad ei hun yn anghywir.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 17(3)(c) yn cyfeirio at ddileu ymarferydd cymwysedig o restr offthalmig neu atodol pan fo wedi'i euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o drosedd (ac eithrio llofruddiaeth), a gyflawnwyd ar neu ar ôl 30 Gorffennaf 2002 yn achos rhestr offthalmig, neu ar neu ar ôl 1

Chwefror 2006 yn achos rhestr atodol. A oes modd egluro pam yr ystyriwyd bod angen cynnwys y dyddiadau penodol 30 Gorffennaf 2002 a 1 Chwefror 2006?

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 27(1)(a), mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "regulation 13" ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "reoliad 15".

9. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 27(2)(i) yn ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd lleol hysbysu Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG pan fo'n gwneud penderfyniad sy'n ymwneud ag achos o dwyll o fewn ystyr adran 107(3) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru a ddylai'r gofyniad hwn fod yn gymwys hefyd mewn perthynas ag achos o dwyll o fewn ystyr rheoliad 17(3)(d).

10. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 42, ymddengys fod newid yn y derminoleg drwy'r rheoliad lle y defnyddir y term "person", yn hytrach na'r term "ymarferydd cymwysedig" mewn perthynas â chynnwys ar restr offthalmig neu restr atodol Bwrdd Iechyd Lleol. Diffinnir y ddwy restr yn rheoliad 10(2) fel rhai sy'n cynnwys "ymarferwyr cymwysedig" yn unig. Diffinnir y term "ymarferydd cymwysedig" gan reoliad 2 a defnyddir y term hwnnw, yn hytrach na "person", mewn rheoliadau eraill drwy'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r rhestrau hynny. Gofynnir am eglurhad o ran pam y defnyddir y term "person" yn rheoliad 42, yn hytrach na'r term diffiniedig "ymarferydd cymwysedig".

11. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 42(11)(a), mae'r fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau yn darllen, "*...received an application for inclusion in its previous ophthalmic list or previous supplementary list...*". Fodd bynnag, mae'r gair "*ymarferydd*" wedi'i ychwanegu yn y fersiwn Gymraeg o reoliad 42(11)(a) i gyfleu ystyr yr un frawddeg, sy'n golygu bod gwahaniaeth mewn ystyr rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mewn geiriau eraill, ymddengys fod y testun Cymraeg wedi'i gyfyngu i gynnwys "*ymarferwyr*", ond nid yw'r testun Saesneg yn cynnwys y cyfyngiad hwn. Nodir hefyd fod gweddill rheoliad 42 yn y testun Cymraeg yn defnyddio "*person*" yn hytrach nag "*ymarferydd*". Gofynnir am eglurhad mewn perthynas â'r anghysondebau amlwg hyn.

12. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(2)(c), yn y testun Saesneg, mae teitl yr OS, "the National Health Service (**Travel Expenses** and Remission of Charges) (Wales) 2007" yn anghywir. Dylai

nodi "**Travelling** Expenses" yn hytrach na "**Travel** Expenses" yn nheitl yr OS. Rhoddir teitl cywir yr OS ym mharagraff 1(9) o Atodlen 1.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(7)(b), rhoddir ystyr i "teulu" "ym mharagraff (g)". Fodd bynnag, nid ymddengys fod "teulu" yn cael ei ddefnyddio ym mharagraff (g). Felly, mae angen eglurhad pellach o ran pa un a yw'r cyfeiriad yn anghywir ac a ddylai gyfeirio at baragraff arall (paragraff (i) o bosib).

**14. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 3(7), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, cyfeirir at "the qualifications **and experience** prescribed by paragraph 1". Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau "**a'r profiad**" ar goll.

**15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 4, ceir diffiniad o "y gwasanaeth iechyd" ar gyfer "yr Atodlen hon". Fodd bynnag, dim ond unwaith yn yr Atodlen y defnyddir y term hwn, ym mharagraff 1(1)(a)(i). Felly, dylid ei gynnwys yn narpariaeth ddehongli bresennol paragraff 1(3) sy'n diffinio term arall ar gyfer "y paragraff hwn" yn hytrach nag ar gyfer yr Atodlen gyfan.

**16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 1, mae'r derminoleg yn amrywio rhwng "person" yn is-baragraffau (a) i (d), ac "ymarferydd cymwysedig" yn is-baragraffau (e) i (i). A oes rheswm dros newid y derminoleg neu a ddylid defnyddio'r term "ymarferydd cymwysedig" yn enwedig wrth gyfeirio at unigolion sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr offthalmig? Mae termau'n amrywio yn yr un modd ym mharagraff 2 mewn perthynas â'r rhestr atodol.

**17. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 3, ym mharagraff 6(a), cyfeirir at "yr wybodaeth **a'r ddogfen**, os ydynt yn berthnasol, sy'n ofynnol gan reoliad 16". Fodd bynnag, credwn y dylai nodi "**a'r dystysgrif**" yn hytrach nag "**a'r ddogfen**" oherwydd ei bod yn cyfeirio at dystysgrif cofnod troseddol manwl yn rheoliad 16(3).

**18. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 10(1)(b) o Atodlen 3 yn cyfeirio at "drosedd, digwyddiad, **euogfarn** neu ymchwiliad" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae paragraff 10(1)(a), (c), (d) ac (e) yn cyfeirio

(mewn ffurfweddau amrywiol) at "drosedd, ymchwiliad neu ddigwyddiad".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam y mae'r gair ychwanegol "euogfarn" wedi'i gynnwys ym mharagraff 10(1)(b). Mae'r un cwestiwn yn codi mewn perthynas â pharagraff 15(2)(b) o Atodlen 3.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 10(3)(a)(iii), mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, nodir "**when and** as required under paragraph 9(3)" ond mae wedi'i gyfieithu fel "fel y bo'n ofynnol o dan baragraff 9(3)". Ym mharagraff 9(3), defnyddir yr ymadrodd "pan fydd yn ofynnol iddo wneud hynny" yn y testun Cymraeg sy'n cyfateb i "when required to do so" yn y testun Saesneg.

**20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 15(1), nodir "i'r **wybodaeth** y darparodd y contractwr yn unol â **pharagraff 7 o Atodlen 3**". Dylai nodi "**datganiadau**" yn hytrach na "wybodaeth" gan fod paragraff 7 o Atodlen 3 yn ymdrin â datganiadau oni bai bod y cyfeiriad ei hun yn anghywir gan fod gwybodaeth yn cael ei darparu yn unol â pharagraffau eraill o Atodlen 3.

**21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 22(2)(b)(i), mae'r term "yr ymarferydd" wedi'i ddiffinio, ac fe'i defnyddir ym mharagraff 22. Fodd bynnag, ym mharagraff 22(3), defnyddir y term "yr ymarferydd cymwysedig" ar ddiwedd y paragraff hwnnw. A yw hyn yn fwriadol gan fod "ymarferydd cymwysedig" hefyd yn derm diffiniedig yn y Rheoliadau hyn neu a ddylai gyfeirio at "yr ymarferydd"?

**22. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn Atodlen 4, ym mharagraff 27(2)(b), nodir nad oes dim sy'n atal corff corfforedig "rhag defnyddio'r enw y mae wedi'i gofrestru odano **yn y gofrestr a gynhelir** o dan Ddeddf Optegwyr 1989". Fodd bynnag, cynhelir sawl cofrestr o dan Ddeddf Optegwyr 1989, ac nid yw "y gofrestr" yn derm diffiniedig at ddibenion Atodlen 4 (ar gyfer Atodlen 3 yn unig). Felly, a ddylai'r ddarpariaeth hon bennu'r gofrestr ac a yw'n cyfeirio at y gofrestr o'r cyrff corfforedig a gynhelir o dan adran 9 o Ddeddf Optegwyr 1989? Os felly, a ddylid defnyddio'r term diffiniedig "optegydd corfforedig" yn hytrach na "corff corfforedig" yn y ddarpariaeth?

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**23. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodir y defnyddir, drwy’r Rheoliadau hyn, gyfeiriadau anghywir amrywiol ar gyfer rhaniadau ac is-raniadau darpariaethau. Er enghraifft, ym mharagraff 7(2) o Atodlen 6, disgrifir cyfeiriad yn anghywir fel “paragraff (b)”, yn hytrach na’r disgrifiad cywir “is-baragraff (b)”. Atgoffir Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd defnyddio’r cyfeiriadau cywir ar gyfer rhaniadau ac is-raniadau wrth ddrafftio is-ddeddfwriaeth.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1-22.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023***

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau Craffu Technegol a'r pwynt Craffu ar Rinweddau a godwyd ac mae wedi darparu ymatebion mewn perthynas â'r pwyntiau Craffu Technegol isod. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i Bwyllgor y Senedd am gadarnhau nad oes angen ymateb mewn perthynas â'r pwynt Craffu ar Rinweddau .

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai cyfeiriadau fod yn fwy penodol mewn mannau. Fodd bynnag, nid ystyrir bod angen cywiro'r rhain oherwydd, o dan yr amgylchiadau, mae'r ystyr cyfreithiol cywir yn glir.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed ond yn ystyried bod y diffiniadau o "cyflogi", "cyflogai" a "cyflogaeth" yn rheoliad 2 a Pharagraff 18 o Atodlen 4 yn cyflawni'r effaith gyfreithiol a fwriedir ac nad oes angen cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 3:**

Mae rheoliad 4(a) yn cyfeirio at baragraff 23 "o'r telerau gwasanaeth". Mae rheoliad 2 yn diffinio "telerau gwasanaeth" fel "y telerau a nodir yn Atodlen 4". Felly, mae lleoliad paragraff 23 wedi ei nodi ac nid oes angen cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 4:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wnaed ond yn ystyried yng nghyd-destun rheoliad 7(4) ac Atodlen 1 y byddai'r cyfeiriad at "paragraff (2)(n)" yn cael ei ddarllen fel cyfeiriad at "paragraff 1(2)(n)" , ac felly, nid oes gwir angen cywiriad. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau i ofyn am slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 5:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai'r darpariaethau fod yn fwy manwl. Fodd bynnag, gan na ellir dehongli'r darpariaethau hyn mewn unrhyw ffordd arall heblaw fel cyfeiriad at "ymarferydd cymwys", nid ystyrir bod angen cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 6:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai cyfeirio at "ffeithiau" yn hytrach na "ffactorau" yn rheoliad 13(5) yn fwy cyson. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn cynhyrchu'r effaith gyfreithiol gywir. Mae'n amlwg mai'r ffeithiau ym mharagraff 10 o Atodlen 3 yw'r ffactorau y cyfeirir atynt yn rheoliad 13(5) ac mae'n amlwg bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried y materion hynny ym mharagraff 10 o Atodlen 3 ac felly nid oes angen cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 7:**

1 Chwefror 2006 yw'r dyddiad y sefydlwyd system y rhestr atodol o dan *Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio a Diwygiad Canlyniadol) (Cymru) 2006*. 30 Gorffennaf 2002 yw'r dyddiad perthnasol mewn perthynas â'r rhestr offthalmig ers 2016.

Nid oes unrhyw newid polisi arfaethedig i'r seiliau hyn dros ddileu ymarferydd o restr. Felly, mae'r darpariaethau'n cynnal y sefyllfa bresennol.

**Pwynt Craffu Technegol 8:**

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwynt a wnaed ond yn ystyried y byddai priod luniad y ddarpariaeth yn arwain at ddarllen y cyfeiriad fel cyfeiriad at reoliad 13 gan nad yw rheoliad 15 yn ymdrin â gwrthodiadau. Felly, nid oes gwir angen cywiro. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau i weld a ellir mynd i'r afael â'r mater hwn drwy gyfrwng slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 9:**

Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn cael cyfarwyddyd i hysbysu Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG mewn perthynas ag achosion o dwyll o fewn ystyr rheoliad 17(3)(d) hyd nes y bydd diwygiad i'r rheoliadau i'r perwyl hwnnw.

**Pwynt Craffu Technegol 10:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai'n gyson cyfeirio at "ymarferydd cymwysedig".Fodd bynnag, mae'r ystyr cyfreithiol cywir yn glir gan mai'r unig bobl y mae'n berthnasol iddynt yw'r rhai sy'n "ymarferwyr cymwysedig".

**Pwynt Craffu Technegol 11:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai cyfeirio at "ymarferydd cymwysedig" yn gyson, fodd bynnag, mae'r ystyr gyfreithiol gywir yn glir gan mai'r unig bobl y mae'n berthnasol iddynt yw'r rhai sy'n "ymarferwyr cymwys".

**Pwynt Craffu Technegol 12:**

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwynt ond yn ystyried nad oes amheuaeth ynghylch y Rheoliadau y cyfeirir atynt. Er bod Llywodraeth Cymru, felly, yn ystyried nad oes angen cywiriad, mae mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y posibilrwydd o egluro hyn drwy gyfrwng slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 13:**

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r gwall yn y croesgyfeirio ac mae mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y posibilrwydd o slip cywiro i gyfeirio at baragraff "(i)" yn hytrach nag "(g)".

**Pwynt Craffu Technegol 14:**

Mae'r Llywodraeth yn nodi yr hepgorwyd y ddau air "a'r profiad" yn nhestun Cymraeg paragraff 3(7) o Atodlen 2. Fodd bynnag, mae paragraff 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau, rheoliad 9 ac Adran 71 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i gyd yn cyfeirio at "cymwysterau rhagnodedig" ac felly ni all unrhyw effaith andwyol fod o hepgor y geiriau hynny. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y posibilrwydd o fewnosod y geiriau hyn drwy gyfrwng slip cywiro fel bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfwerth.

**Pwynt Craffu Technegol 15:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai unwaith yn unig yn yr Atodlen y defnyddir y term "gwasanaeth iechyd". Fodd bynnag, ystyrir bod yr ystyr cyfreithiol cywir yn glir ac nad oes angen cywiro felly.

**Pwynt Craffu Technegol 16:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai'n gyson cyfeirio at "ymarferydd cymwysedig". Fodd bynnag, mae'r ystyr cyfreithiol cywir yn glir o dan yr amgylchiadau gan mai'r unig bobl y mae'n berthnasol iddynt yw'r rhai sy'n "ymarferwyr cymwysedig".

**Pwynt Craffu Technegol 17:**

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y ddarpariaeth yn cael yr effaith gyfreithiol gywir gan fod "tystysgrif" yn "ddogfen".

**Pwynt Craffu Technegol 18:**

O dan Atodlen 3, paragraffau 10(1)(b) a 15(2)(b), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol ("BILl") ystyried "yr holl ffeithiau y mae'n ymddangos eu bod yn berthnasol" gan gynnwys y rhai a restrwyd yn benodol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt). Mae'r cyfnod o amser ers euogfarn yn arbennig o berthnasol o ystyried y potensial i berson fod wedi ei gael yn euog o drosedd ymhell ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni. Felly, mae'r cyfnod o amser ers y drosedd, ac ers yr euogfarn am y drosedd, wedi eu rhestru fel ffeithiau penodol i'w hystyried ac mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y ddarpariaeth hon yn addas.

**Pwynt Craffu Technegol 19:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r gwahaniaeth bach iawn rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Fodd bynnag, nid ystyrir bod angen cywiro hyn gan fod y ddarpariaeth yn cael yr effaith gyfreithiol gywir.

**Pwynt Craffu Technegol 20:**

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y ddarpariaeth hon yn effeithiol. Mae paragraff 15(1) o Atodlen 4 yn cyfeirio at "wybodaeth" a ddarperir o dan baragraff 7 o Atodlen 3. Byddai hyn yn ymdrin ag unrhyw wybodaeth sy'n rhan o ddatganiad a ddarperir gan ymarferydd cymwysedig, a dyna yw'r effaith a fwriedir.

**Pwynt Craffu Technegol 21:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai'n gyson cyfeirio at "ymarferydd cymwysedig". Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn cael yr effaith gyfreithiol gywir gan mai'r unig bobl y mae'n berthnasol iddynt yw'r rhai sy'n "ymarferwyr cymwysedig".

**Pwynt Craffu Technegol 22:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y gallai'r geiriad a awgrymir fod wedi bod yn fwy manwl. Fodd bynnag, yn y cyd-destun, mae'r bwriad a'r effaith gyfreithiol yn glir ac nid ystyrir bod angen cywiro hyn.

# SL(6)392 – [Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023]

## Cefndir a diben

Nod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau 2021) yw mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi llygredd dŵr sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol ledled Cymru.

Mae Rheoliadau 2021 yn gosod terfynau ar ddodi tail organig: mae rheoliad 4 o Reoliadau 2021 yn cyfyngu cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw y caniateir ei ddodi ar ddaliad (boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu) i 170kg wedi'i luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

Ar gyfer daliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau, roedd rheoliad 4 yn ddarostyngedig i gyfnod trosiannol. Ar gyfer daliadau o'r fath, y bwriad gwreiddiol oedd y byddai rheoliad 4 yn gymwys o **30 Ebrill 2023**. Ym mis Ebrill 2023, newidiwyd y dyddiad hwnnw i **31 Hydref 2023**. Nawr, mae'r Rheoliadau hyn yn newid y dyddiad hwnnw eto, gan estyn y cyfnod trosiannol am 2 fis arall fel y bydd rhaid i ddaliadau nad oeddent gynt mewn parth perygl nitradau gydymffurfio â'r terfyn 170kg o **1 Ionawr 2024**.

Oherwydd bod y dyddiadau wedi newid, mae'r gofynion cysylltiedig o ran cadw cofnodion yn rheoliad 36 o Reoliadau 2021 hefyd wedi eu diwygio.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid cymhwysiad y terfyn 170kg i ddaliadau a oedd gynt mewn parth perygl nitradau.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn**

Yn rheoliad 2(3)(a), mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg a allai o bosibl arwain at eu dehongli'n wahanol. Yn y testun Saesneg, mae'r testun newydd yn dweud "any year beginning 1 January", ond mae'r cyfieithiad yn dweud "unrhyw flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ionawr". Yn y Nodyn Esboniadol, nodir yn y ddwy iaith fod rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 4 fel bod terfyn uchaf y nitrogen mewn tail da byw yn gymwys i bob cyfnod o 12 mis "sy'n dechrau â 1 Ionawr".

Mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn argymell osgoi defnyddio "ar" wrth ddisgrifio dechrau neu ddiwedd cyfnodau amser – gweler Drafftio Deddfau i Gymru 8.3 ac 8.4. Mae hyn oherwydd y gall defnyddio "ar" beri amheuaeth ynghylch a fydd y cyfnod yn dechrau neu'n gorffen ar amser penodol ar y diwrnod hwnnw. Mae'r canllawiau drafftio yn argymell defnyddio "â" er eglurder ac er mwyn osgoi unrhyw amwysedd.

Fodd bynnag, nodwn fod y gwahaniaeth hwn rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg wrth ddisgrifio dechrau a diwedd cyfnodau eisoes yn bodoli yn nhestun dwyieithog Rheoliadau 2021 mewn rhai mannau.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 23 Hydref 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023***

Pwynt Craffu Technegol 1:

Yr egwyddor gyffredinol a ddilynir, wrth ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, yw cynnal cysondeb â therminoleg ac ymadroddion y testun gwreiddiol. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn nodi "dechrau ar" i gyfateb i'r Saesneg "beginning 1 January" yn rheoliad 6(3). Teimlwyd felly y dylid defnyddio'r un geiriad y tro hwn. Hefyd, o ystyried bod y nodyn esboniadol i'r Rheoliadau yn datgan yn nhestun y ddwy iaith bod rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 4 fel bod y terfyn o nitrogen mewn tail da byw yn gymwys i bob cyfnod o 12 mis "sy'n dechrau â 1 Ionawr", mae'n ddigon clir i'r darllenydd yr hyn a fwriedir o dan reoliad 2(3)(a). Felly, ystyrir nad oes angen diwygiad i ymdrin â'r pwynt craffu technegol hwn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023** |
| **DYDDIAD** | **24 Hydref 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes Datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd Rebecca Pow AS, y Gweinidog Ansawdd a Chadernid Amgylcheddol ar ran yr Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023 (y "Rheoliadau").

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr OS uchod, drwy arfer y pwerau a roddir o dan adrannau 14(2), (4) (b) a (c) a (7) a 20(1) (a) a (b) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf 2023").

Diben y Rheoliadau yw ymestyn neu ailgyflwyno darpariaethau trosiannol dros dro a roddwyd ar waith drwy ddeddfwriaeth ymadael â'r UE mewn perthynas â thriniaethau hadau a chynhyrchion masnach gyfochrog. Y nod yw galluogi cyflenwad digonol o hadau wedi'u trin a chynhyrchion diogelu planhigion ym marchnad Prydain Fawr, gan gefnogi sefydlu cnydau da a chostau is i dyfwyr a phrynwyr bwyd a bwyd anifeiliaid. Bydd y Rheoliadau'n cynnal y dull gweithredu presennol o ran mewnforion o hadau wedi'u trin a bydd yn ailgyflwyno dull tebyg o ymdrin â masnach gyfochrog sy'n bodoli ledled yr UE. Nid oes gwahaniaeth polisi ar y mater hwn rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a DEFRA ar hyn o bryd.

Gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 23 Hydref 2023 i ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2023.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae swyddogaethau a roddir gan y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio, yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru neu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn cadw'r swyddogaethau perthnasol (neu cânt ddirprwyo'r swyddogaethau hynny i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch drwy Gytundeb Asiantaeth rhwng Gweinidogion Cymru a HSE).

**Diben y diwygiadau**

Diben y Rheoliadau yw ymestyn y mesurau trosiannol drwy ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn caniatáu i driniaethau hadau a chynhyrchion diogelu planhigion perthnasol barhau i gael eu defnyddio dros dro, gan roi rhagor o amser i'r triniaethau a'r cynhyrchion hyn naill ai fynd drwy broses awdurdodi Prydain Fawr eu hunain neu i weithgynhyrchwyr ddatblygu triniaethau / cynhyrchion amgen y gellir eu hawdurdodi i'w defnyddio ym Mhrydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion ynghylch tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

Offeryn Statudol: The Plant Protection Products (Miscellaneous Amendments) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)

Memorandwm Esboniadol: The Plant Protection Products (Miscellaneous Amendments) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn gan ei fod yn cael ei ystyried yn briodol, y tro hwn, i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Mae Iechyd Planhigion a Phlaladdwyr yn feysydd lle mae Gweinidogion Cymru yn aml wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud deddfwriaeth ar lefel Prydain Fawr oherwydd y modd yr ymdrinnir â'r pwnc ar draws Prydain Fawr. Mae'r dull hwn yn sicrhau nad oes gwahaniaeth rhwng rheoliadau Cymreig a rheoliadau eraill Prydain Fawr, gan leihau unrhyw ddryswch ac anfantais i fasnachwyr Cymru a lleihau unrhyw faich gweinyddol posibl i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wrth weinyddu trwyddedau ar gyfer masnach gyfochrog ac wrth ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gorfodi.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

24 Hydref 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023**

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch dyddiedig 13 Medi 2023. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023 o ran Cymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma https://senedd.cymru/media/hwbmwqq1/ws-ld16099-w.pdf

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 23 Hydref 2023, gyda dyddiad cychwyn o 31 Rhagfyr 2023.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Mae Iechyd Planhigion a Phlaladdwyr yn feysydd y mae Gweinidogion Cymru yn aml wedi rhoi eu cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud deddfwriaeth ar lefel Prydain Fawr oherwydd y modd yr ymdrinnir â'r pwnc ledled Prydain Fawr. Trwy wneud hyn, sicrheir nad oes gwahaniaeth rhwng rheoliadau Cymreig a rheoliadau rhannau eraill y DU, gan leihau unrhyw ddryswch ac anfantais i fasnachwr Cymru a lleihau unrhyw faich gweinyddol posibl i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wrth weinyddu trwyddedau ar gyfer masnach gyfochrog ac wrth ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gorfodi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA).

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/362/2023
Ein cyf/Our ref DC/CG/00060/23

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

24 fed Hydref 2023

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 17 Hydref, rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol Etholiadau a Chofrestru, i'w gynnal ar 25 Hydref 2023, wedi'i ohirio'n ffurfiol. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto pan fydd y cyfarfod wedi'i aildrefnu.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Trothwyon) (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **27 Hydref 2023** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

**RHEOLIADAU CAFFAEL CYHOEDDUS (CYTUNDEB AR GAFFAEL GAN LYWODRAETHAU) (TROTHWYON) (DIWYGIO) 2021**

**Trosolwg o Bolisi'r OS:**

Mae angen diwygio deddfwriaeth gaffael (a nodir isod) er mwyn gweithredu'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau yn ddomestig o dan Reoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Trothwyon) (Diwygio) 2021.

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

**("y Rheoliadau Caffael")**

**Diben y gwelliannau**

Mae'r offeryn hwn yn diweddaru'r trothwyon ariannol y gellir eu hadolygu ym maes caffael cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n rheoli'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob gwelliant ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2023/1117/contents/made

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Pam y rhoddwyd caniatâd**

Dim ond Gweinidogion Swyddfa'r Cabinet sydd â'r pŵer i wneud y newidiadau hyn i'r trothwyon ariannol. Mae angen y newidiadau hyn i sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau o dan y GPA. Rydym yn fodlon i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hyn i'r graddau eu bod yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **26 Hydref 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd yr Arglwydd Benyon, Gweinidog dros Fioddiogelwch, Materion Morol a Gwledig yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr OS uchod drwy arfer y pwerau a roddir o dan Reoliad (EU) 2016/2031, y Rheoliadau Iechyd Planhigion, a Rheoliad (EU) 2017/625, y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliad (EU) 2019/2072, y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol, at sawl diben. Yn bennaf, mae'r diwygiadau yn dadreoleiddio ac yn cynnwys plâu amrywiol ar y rhestrau Plâu Cwarantin a Phlâu Cwarantin Dros Dro. Yn ogystal, bydd y diwygiadau yn cyflwyno diwygiad i alluogi darpariaethau o fewn Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM).

Gosodwyd yr OS gerbron Senedd y DU ar 26 Hydref 2023. Bydd mesurau brys yn y Rheoliadau yn dod i rym ar 17 Tachwedd a 24 Tachwedd 2023 a bydd mesurau nad ydynt yn rhai brys yn dod i rym ar 2 Mai 2024.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr Aelodau yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw diweddaru agweddau ar y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (PCR) i gyflwyno'r newidiadau canlynol:

- Dadreoleiddio plâu cwarantin (QPs) penodol Prydain Fawr sydd wedi'u hasesu gan y Grŵp Risg Iechyd Planhigion (PHRG) fel rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i fod yn bla cwarantin.
- Ychwanegu plâu cwarantin newydd Prydain Fawr sydd wedi'u hasesu gan y PHRG fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf i fod yn bla cwarantin.
- Ychwanegu plâu cwarantin dros dro (PQPs) newydd Prydain Fawr sydd wedi'u hasesu gan y PHRG fel rhai sy'n bodloni'r meini prawf i fod yn bla cwarantin ar sail asesiad dros dro.
- Diweddaru gofynion mewnforio i ystyried newidiadau yn y deunydd a fasnachwyd.
- Cyflwyno newid a gollwyd mewn OS blaenorol.
- Ffurfioli hawddfraint er mwyn sicrhau bod gofynion mewnforio yn gweithio'n ymarferol.
- Cynnwys rhanddirymiad a gafodd ei gario drosodd fel cyfraith yr UE a ddargedwir ond sydd bellach wedi dod i ben ac sydd angen ei gynnwys yn neddfwriaeth Prydain Fawr.

Yn ogystal, bydd y diwygiadau yn cyflwyno diwygiad i alluogi darpariaethau o fewn Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM). Bydd y ddarpariaeth hon yn diwygio'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (OCR) i ddarparu eithriad ar gyfer ffrwythau a llysiau penodol o ran gofynion cyn-hysbysu'r OCR.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion ynghylch tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

The Official Controls (Plant Health) (Prior Notification) and Phytosanitary Conditions (Amendment) Regulations 2023 (legislation.gov.uk)

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud yr offeryn hwn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, gan fod yr OS yn ymwneud â maes datganoledig, ond, mae'r OS yn gweithredu ar draws Prydain Fawr ac yn cael effaith ar y cyfyngiadau o ran mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion i Brydain Fawr. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), busnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar lefel Prydain Fawr yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o wahaniaeth deddfwriaethol ym Mhrydain Fawr.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

30 Hydref 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023.**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 28 Medi 2023. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Bu'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 26 Medi 2023. Y dyddiadau cychwyn fydd 17 Tachwedd 2023, 24 Tachwedd 2023 a 2 Mai 2024.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gosod gan Lywodraeth y DU. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fewnforio cynhyrchion planhigion a phlanhigion ledled Prydain. Mae llawer o'r newidiadau yn y Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod trwy borthladdoedd Lloegr a byddent yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth mewnforio. Gall cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr achosi baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), busnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar draws Prydain yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o ymwahanu deddfwriaethol ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai gwneud Rheoliadau Cymru yn unig ar gyfer rhai darpariaethau o fewn y Ddeddf hon yn cael goblygiadau ar gyfer diwygio a chydgrynhoi deddfwriaeth iechyd planhigion yn dilyn cymhathu Bil REUL ar ddiwedd 2023, yn ogystal â chael goblygiadau ar gyfer rhoi gwybod i Sefydliad Masnach y Byd (WTO) am y newidiadau.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (CCEI).

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LJCC/HID

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

23 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Medi, ynghylch y Protocol sy'n diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (ICCAT), a elwir hefyd yn "Brotocol Palma".

Fel y nodwch, mae cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys gwaith yr ICCAT, yn fater a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod rheoli rhywogaethau ICCAT, yn enwedig Tiwna Asgell Las, sy'n fwyfwy cyffredin yn nyfroedd Cymru, yn fater i'm Llywodraeth. Yn y cyd-destun hwn, gwnaethom gytuno â DEFRA y dylid mabwysiadu'r Protocol gan fod y diwygiadau a ddisgrifiwch yn welliannau i weithrediad y Confensiwn.

Fe wnaethoch chi ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y canlynol:

- *yr ymgysylltiad rhynglywodraethol a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol*

Roedd Protocol Palma yn destun trafodaeth ar lefel swyddogion ac yn dilyn cyngor cyfreithiol, daethpwyd i'r casgliad bod y diwygiadau i'r Protocol yn peri ychydig iawn o bryder i'r DU neu ddim o gwbl, yn enwedig oherwydd iddynt gael eu hadolygu cyn i'r DU arwyddo ar ran yr holl Weinyddiaethau.

- *pa drefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu argymhellion Comisiwn y Protocol mewn meysydd datganoledig.*

Fel parti contractio i ICCAT, mae'n ofynnol i'r DU ddeddfu deddfwriaeth i roi effaith i weithrediad domestig y Confensiwn. Cafodd rhai adrannau o ddeddfwriaeth yr UE eu cadw wrth i'r DU ymadael â'r UE yn hyn o beth. Mae swyddogion yn ein His-adran Pysgodfeydd yn gyfrifol am fonitro, arsylwi a gweithredu rheoliadau o'r fath. Yn dilyn Brexit, rhoddwyd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fframwaith y DU ar waith ar gyfer rheoli pysgodfeydd, gan nodi rhyngweithiad cymwyseddau a gedwir yn ôl a chymwyseddau datganoledig. Mae’r fframwaith yn nodi sut y bydd llywodraethau’r DU yn rhyngweithio yn y maes polisi hwn ac yn cael ei gyhoeddi yn:

https://www.gov.uk/government/publications/fisheries-management-and-support-provisional-common-framework

- *eich asesiad ynghylch a oes angen cymryd unrhyw gamau, gan gynnwys gwneud newidiadau, ar hyn o bryd i sicrhau bod Cymru’n cydymffurfio â’r diwygiadau a wnaed gan y Protocol mewn meysydd datganoledig.*

Fel y nodwch, mae’r Protocol yn diwygio cwmpas yr ICCAT, yn ogystal â gwella’r ffordd y mae’r Comisiwn yn gweithredu. Mae hefyd yn mewnosod amcanion newydd ar gyfer partïon contractio, ac mae’r rhain yn cyd-fynd â’r Amcanion Pysgodfeydd a nodir yn Neddf Pysgodfeydd 2020. Ni fyddai unrhyw gamau inni eu cymryd ar unwaith i weithredu’r Protocol.

Dylid nodi, dim ond pan fydd tri chwarter partïon contractio ICCAT yn ei gadarnhau, y mae’r Protocol yn dod i rym. O ystyried bod cadarnhad y DU yn dod â’r cyfanswm i ddim ond 6 o 52 o bartïon contractio, mae unrhyw ddarpariaethau a ddatblygwyd o ganlyniad i’r newidiadau a wneir gan y Protocol gryn dipyn i ffwrdd o’r angen i weithredu arnynt.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

29 Medi 2023

Annwyl Mark,

Fel y byddwch yn gwybod, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 11 Medi 2023, buom yn ystyried y Protocol sy'n diwygio'r Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd ("Protocol Palma"). Mae Protocol Palma yn diwygio cwmpas y Confensiwn Rhyngwladol ar Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (y "Confensiwn") i gynnwys siarcod ac elasmobranciaid eraill sy'n gefnforol, pelagig, a hynod fudol ac a geir yng Nghefnfor yr Iwerydd. Mae hefyd yn gwneud newidiadau i weithdrefnau gwaith y Comisiwn Rhyngwladol dros Gadwraeth Tiwna'r Iwerydd (y "Comisiwn").

Er bod cysylltiadau rhyngwladol yn fater a gedwir yn ôl, gallai newidiadau a wnaed gan Brotocol Palma i'r Confensiwn effeithio ar faterion datganoledig, er enghraifft, pe bai'n ofynnol i lywodraethau datganoledig weithredu a chadw at argymhellion y Comisiwn mewn perthynas â materion datganoledig. Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad, mae Memorandwm Esboniadol Protocol Palma yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig a bod swyddogion o Gymru, yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon, wedi cadarnhau eu bod yn fodlon i Lywodraeth y DU gadarnhau'r cytundeb.

Byddem yn croesawu eich barn am y Protocol, a byddem yn ddiolchgar pe gallech roi mwy o wybodaeth am:

- yr ymgysylltiad rhynglywodraethol a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol;



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- pa drefniadau mewnol sydd ar waith i fonitro, arsylwi a gweithredu argymhellion Comisiwn y Protocol mewn meysydd datganoledig;
- eich asesiad ynghylch a oes angen cymryd unrhyw gamau, gan gynnwys gwneud newidiadau, ar hyn o bryd i sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio â'r diwygiadau a wnaed gan y Protocol mewn meysydd datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 19 Hydref 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA/JJ/2739/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy swyddogion yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU i archwilio gweithio ar y cyd i wahardd arferion "dim DSS" a "dim Plant" mewn gosodiadau preswyl yng Nghymru. Yn fy marn i, byddai hyn yn cyflawni amcan polisi arwahanol sy'n ddymunol yng Nghymru.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n ategu cyfraith tai yng Nghymru, ac yn benodol yn sicrhau cysondeb â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru** |
| **DYDDIAD** | **26 Hydref 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ym mis Gorffennaf, rhoddais adroddiad ar gynnydd gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Cyfarfu'r Prif Weinidog, arweinydd Plaid Cymru a minnau â'r Athro Laura McAllister y mis hwn i gael diweddariad rheolaidd ar waith parhaus y Comisiwn.

Dyma'r adroddiad cynnydd a dderbyniwyd gan y Cyd-gadeiryddion.

Bydd y Comisiwn yn gorffen ei waith erbyn diwedd y flwyddyn a bydd ei adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r Senedd ddychwelyd o'r toriad ym mis Ionawr 2024.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/CG/2641/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

1 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

**Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026**
**Adroddiad Blynyddol 2022-23**

Amgaeaf gopi o'r ail Adroddiad Blynyddol ar raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, sy'n cael ei osod gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 2(7) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys, ar ffurf Atodiad, yr adolygiad o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, fel y cytunwyd wrth graffu ar y Bil.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026

## Adroddiad Blynyddol 2022-2023




Tachwedd 2023

"A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o'r newydd."

*Llyfr Iorwerth 1240*

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48675
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Diben yr adroddiad

1. Dyma'r ail adroddiad blynyddol i'w lunio o dan adran 2(7) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae'n disgrifio'r cynnydd a wnaed o dan raglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru: *Dyfodol cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026*, rhwng 15 Hydref 2022 a 30 Medi 2023.

2. Roedd yr adroddiad blynyddol yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 21 Medi 2021 (pan osodwyd y rhaglen) a 14 Hydref 2022. Yn y dyfodol bwriedir i adroddiadau blynyddol ymdrin â'r flwyddyn o ddechrau mis Hydref hyd ddiwedd mis Medi, er cysondeb.

## Cefndir y rhaglen

3. Rhaid i bob rhaglen sy'n cael ei llunio o dan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 gynnwys prosiectau sy'n:

   a. cyfrannu at broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru
   b. cynnal ffurf cyfraith Cymru (wedi iddi gael ei chodeiddio)
   c. hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru
   d. hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

4. Gosodwyd y rhaglen gyntaf o dan Ddeddf 2019 gerbron y Senedd ar 21 Medi 2021 ac mae'n cynnwys cyfuniad o brosiectau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a gynlluniwyd i gyflawni'r gofyniad hwn. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar y rhaglen ar 7 Tachwedd 2022.

5. Mae'r ail adroddiad blynyddol hwn yn rhoi diweddariad pellach ar y prosiectau hyn drwy gyfeirio at ein nodau hollgynhwysol o ran:

   a. dosbarthu cyfraith Cymru
   b. cydgrynhoi cyfraith Cymru
   c. codeiddio cyfraith Cymru, a
   d. chyfathrebu cyfraith Cymru.

6. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys adolygiad o Ddeddf 2019, fel y cytunwyd â Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (bryd hynny) a Phwyllgor Cyllid y Pumed Senedd, wrth iddynt graffu ar Fil Deddfwriaeth (Cymru). Yn ogystal â hynny, cyfeiriwyd at ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu Deddf 2019 mewn tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd hon. Mae'r adolygiad hwn wedi ei gynnal hanner ffordd drwy dymor y Senedd hon, fel y cytunwyd yn wreiddiol, ac mae i'w weld yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.

## Dosbarthu cyfraith Cymru

Ymrwymiadau'r rhaglen:

Yn ystod tymor y Senedd hon bydd y Llywodraeth yn:

a. adolygu a diwygio'r dacsonomeg ddrafft bresennol o bynciau (a luniwyd ac yr ymgynghorwyd arni yn wreiddiol yn 2019) er mwyn canfod pa ddeddfiadau ym meysydd datganoledig y gyfraith a ddylai berthyn i bob haen o'r dacsonomeg.

b. gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk yn yr Archifau Gwladol i ddarparu swyddogaethau ychwanegol ar y safle hwnnw fel y gall defnyddwyr gyrchu cyfraith Cymru yn ôl pwnc..

### *Cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd*

7. Nid yw wedi bod yn bosibl bwrw ymlaen â'r gwaith ar setlo'r dacsonomeg y tu hwnt i'r Codau cyfraith Cymru a nodwyd i ddechrau a'r gwaith rhagarweiniol yr adroddwyd arno yn yr adroddiad blynyddol cyntaf. Bydd yn dal o fudd i'r dacsonomeg gael ei phrofi gan ddefnyddwyr, a chaiff hyn ei wneud pan fydd yr Archifau Gwladol yn gallu cydweithio â ni ar drefnu cyfraith Cymru yn well ar wefan legislation.gov.uk.

8. Fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf, mae'r Archifau Gwladol wedi blaenoriaethu gwaith ar wella swyddogaeth gwefan legislation.gov.uk fel y gellir dangos diwygiadau i gyfraith Cymru yn eu cyd-destun yn y Gymraeg (gweler isod).

## Cydgrynhoi cyfraith Cymru

Ymrwymiadau'r rhaglen:

Yn ystod tymor y Senedd hon bydd y Llywodraeth yn datblygu:

a. Bil cydgrynhoi sy'n dod â'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol ynghyd.

b. Bil cydgrynhoi sy'n symleiddio ac yn moderneiddio'r gyfraith ym maes cynllunio.

c. Bil cydgrynhoi sy'n diddymu neu'n datgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi darfod, wedi dod i ben, neu nad ydynt bellach o ddefnydd ymarferol yng Nghymru o bob cwr o'r llyfr statud.

Byddwn hefyd yn:

a. adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol mewn nifer o feysydd er mwyn nodi dau brosiect cydgrynhoi arall i weithio arnynt yn ystod tymor y Senedd hon.

b. datblygu'r pecyn o is-ddeddfwriaeth y disgwylir y bydd ei angen i weithredu Bil yr amgylchedd hanesyddol.

c. ymgymryd â phrosiect graddol o gydgrynhoi is-ddeddfwriaeth cynllunio gwlad a thref allweddol.

d. ail-wneud a diweddaru'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

e. llunio 'Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl' yn ddwyieithog cyn yr etholiad cyffredinol i'r Senedd yn 2026.

### *Cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd*

*Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ac is-ddeddfwriaeth ategol*

9. Cafodd prosiect cydgrynhoi cyntaf Llywodraeth Cymru – sef Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) – ei gymeradwyo'n unfrydol gan aelodau'r Senedd ar 28 Mawrth 2023. Penododd y Pwyllgor Busnes y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i fod yn gyfrifol am graffu ar y Bil ar ei hynt drwy Senedd Cymru, a gymerodd gyfnod o ddeng mis. Ymysg pethau eraill, ystyriodd y Pwyllgor:

   a. a oedd cwmpas y cydgrynhoi yn briodol,
   b. a oedd deddfiadau perthnasol wedi eu cynnwys,
   c. a oedd deddfiadau wedi eu cydgrynhoi'n gywir a'u heffaith wedi ei chadw, ac
   d. a oedd y gyfraith wedi ei chydgrynhoi'n eglur ac yn gyson.

10. Wrth graffu ar y ddeddfwriaeth, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiwn y Gyfraith yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol ym maes yr amgylchedd hanesyddol. Yn ei adroddiad ar yr ystyriaeth gychwynnol o'r Bil,[1] nododd y Pwyllgor fod rhanddeiliaid yn ymateb yn gadarnhaol i'r Bil cydgrynhoi yn gyson, ac yn gytûn ei fod yn gwella hygyrchedd y gyfraith. Yn wir, pan ymddangosodd tri chynrychiolydd o Gomisiwn y Gyfraith gerbron y Pwyllgor ar 26 Medi 2022, dywedodd Cadeirydd y Comisiwn, Syr Nicholas Green:

> ***…fel unigolion rydym yn meddwl ei fod yn waith trawiadol… rydym yn meddwl ei fod yn waith o safon uchel iawn.***

11. Tynnodd y Pwyllgor sylw at "bwysigrwydd y Bil fel y cyntaf o'i fath i'r Senedd ac i gyfraith Cymru" ac roedd yn cydnabod y buddion a ddeuai yn sgil cydgrynhoi. Cafodd y ddeddfwriaeth y Cydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023[2] ac erbyn hyn mae modd

---

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (Rhagfyr 2022)
[2] legislation.gov.uk/cy/asc/2023/3/contents/enacted/welsh

trafod y buddion hyn mewn termau mwy pendant. Bydd y Ddeddf yn trawsnewid hygyrchedd y gyfraith i berchnogion a meddianwyr henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, grwpiau'r trydydd sector, awdurdodau lleol ac eraill. Am y tro cyntaf, mae'n dod â'r brif ddeddfwriaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol at ei gilydd mewn un lle, yn ei datgan ar gyfer Cymru'n benodol heb unrhyw gyfeiriadau dryslyd at awdurdodaethau eraill, ac yn cyflwyno'r gyfraith a'i dogfennau ategol i gyd yn y ddwy iaith. At hynny, mae'r gyfraith wedi ei had-drefnu a'i hailddatgan mewn iaith glir, bob-dydd fel ei bod yn haws i bawb ei deall a'i defnyddio. Lluniwyd cyfres fwy helaeth o ddogfennau ategol i helpu defnyddwyr i ddeall y ddeddfwriaeth newydd a llywio'u ffordd drwyddi, ac mae'r rhain ar gael ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth a'r nodiadau esboniadol ar legislation.gov.uk[3]. Mae'r dogfennau dwyieithog hyn yn cynnwys tablau tarddiadau a chyrchfannau, sy'n helpu'r defnyddiwr drwy ddangos y berthynas rhwng darpariaethau'r Ddeddf newydd a'r ddeddfwriaeth sydd wedi ei chydgrynhoi, a nodiadau'r drafftwyr, sy'n egluro'r penderfyniadau a wnaed wrth gydgrynhoi.

12. Mae'r Ddeddf hefyd yn ffurfio rhan ddiamwys o God cyfraith Cymru, sy'n arwydd o'r ffaith fod cydgrynhoi a chodeiddio wedi eu nodi yn *Dyfodol cyfraith Cymru* fel dau ddull sylfaenol o wneud cyfraith Cymru yn fwy eglur a threfnus[4]. Bydd y Ddeddf, ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth newydd a wneir i'w hategu, yn ffurfio Cod o gyfraith ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a chaiff y cyfan ei gyhoeddi gyda'i gilydd. Os bydd angen newidiadau i'r gyfraith yn y dyfodol, fe'u gwneir drwy ddiwygio'r Cod yn hytrach na thrwy wneud deddfiadau annibynnol newydd, oni bai fod rheswm da iawn dros wneud hynny. Bydd hyn yn diogelu'r drefn a osodwyd ar gyfraith yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn sgil yr ymarfer cydgrynhoi.

13. Er bod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 bellach yn gyfraith, ni chaiff ei chychwyn tan yn ddiweddarach yn 2024, ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i'w hategu gael ei dwyn i rym. Cafodd llawer iawn o is-ddeddfwriaeth a oedd wedi ei hen sefydlu ei hymgorffori yn y Ddeddf, ond mae angen ailddatgan llawer o hyd mewn sawl set o reoliadau sy'n ymdrin ag ystod o faterion gweithdrefnol a materion eraill sy'n effeithio ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig. Mae'r gwaith hwn ar y gweill a byddwn yn adrodd ar gynnydd o ran gwneud y rheoliadau hyn mewn adroddiadau pellach. Byddwn yn ymdrin â'r is-ddeddfwriaeth yn yr un modd ag yr ymdriniwyd â'r cydgrynhoi, sef gwella hygyrchedd y gyfraith drwy ei hailddatgan a'i had-drefnu, gan gadw ei heffaith. Bydd pob set o reoliadau hefyd yn ffurfio rhan o God y gyfraith ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru.

*Symleiddio a moderneiddio cyfraith gynllunio (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth)*

[3] Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (legislation.gov.uk)
[4] Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen ar gyfer 2021-2026 (Llywodraeth Cymru 2021)

14. Gwnaed cryn gynnydd yn ystod y cyfnod adrodd ar gydgrynhoi'r prif Ddeddfau sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer system reoli cynllunio Cymru:

    a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
    b. Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rhannau 3 i 6
    c. Deddf Cynllunio 2008, Rhan 11.

15. Mae gwaith hefyd ar y gweill i gydgrynhoi darpariaethau sydd i'w canfod yn awr mewn Deddfau eraill sy'n berthnasol i gynllunio, er mwyn gwella hygyrchedd ac eglurdeb. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau yn:

    a. Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936
    b. Deddf Llywodraeth Leol 1972
    c. Deddf Cynllunio a Digolledu 1991
    d. Deddf yr Amgylchedd 1995
    e. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

16. Rhagwelir y bydd yr ymarfer cydgrynhoi yn rhoi cyfle i ymgorffori darpariaethau perthnasol mewn is-ddeddfwriaeth yn y Ddeddf, lle bo hynny'n briodol. Efallai y gwneir hynny os yw'r is-ddeddfwriaeth wedi ei hen sefydlu ac nad yw'n debygol y bydd angen ei diwygio'n aml, neu os yw'n addasu'r ddeddfwriaeth sylfaenol – dyna a wnaed wrth gydgrynhoi cyfraith yr amgylchedd hanesyddol.

17. Er nad yw ffurf a chynnwys terfynol y Bil wedi ei ddatblygu eto, disgwylir iddo ymdrin â'r canlynol:

    a. awdurdodau cynllunio
    b. cynlluniau datblygu
    c. rheoli datblygu
    d. tystysgrifau cyfreithlondeb defnydd tir presennol a defnydd tir arfaethedig
    e. gorfodi'r drefn rheoli datblygu
    f. hysbysiadau digolledu a phrynu
    g. caffael a meddiannu tir at ddibenion cynllunio
    h. ymrwymiadau cynllunio a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol
    i. cynllunio ar gyfer mwynau a gwastraff
    j. ymgymerwyr statudol
    k. priffyrdd (a effeithir gan ddatblygu)
    l. rheoli hysbysebu awyr agored
    m. coed a choetiroedd
    n. cynnal a chadw tir diolwg
    o. tir malltod.

18. Mae disgwyl i'r elfennau hyn, ynghyd â'r darpariaethau cyffredinol, a darpariaethau canlyniadol, trosiannol ac arbed, arwain at ryw 450 tudalen o ddeddfwriaeth yn y naill iaith a'r llall.

19. O ystyried maint a chymhlethdod y gwaith cydgrynhoi ein nod ar hyn o bryd yw cyflwyno'r Bil i'r Senedd yn ystod haf 2024; rydym yn cadw golwg ar hyn ac fe fyddwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau maes o law.

20. Bydd gwaith ar yr is-ddeddfwriaeth i weithredu'r Bil yn dechrau ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd a derbyn y Cydsyniad Brenhinol.

*Bil y cyfeiriwyd ato fel Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) gynt*

21. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar fersiwn drafft o Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) ar 7 Hydref 2022 (fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol diwethaf), ac yn dilyn hynny cyhoeddodd y Llywodraeth adroddiad cryno ar yr ymatebion a ddaeth i law.

22. Dim ond ychydig o ymatebion a ddaeth i law ac roedd y rhan fwyaf o'r rheini yn gwneud sylwadau am un neu ddau o faterion yn unig. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn y meysydd hynny o blaid gwneud y diwygiadau a'r diddymiadau arfaethedig. O'r pryderon a'r sylwadau a ddaeth i law, roedd amryw yn ymwneud â mân faterion technegol a drafftio. Mae'r holl sylwadau ac ymatebion a ddaeth i law wedi eu hystyried ymhellach wrth i'r gwaith ar y Bil fynd yn ei flaen yn ystod 2023.

23. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i enw byr y ddeddfwriaeth arfaethedig, er mwyn mynegi bwriad yr hyn y bydd y Bil yn ei gyflawni mewn ffordd fwy modern. Disgwylir i'r Bil gael ei gyflwyno pan fydd amser yn caniatáu yn ystod Blwyddyn 3 o raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth (yn ystod hanner cyntaf 2024, fwy na thebyg).

*Pennu cwmpas meysydd pwnc eraill*

24. Fel y nodwyd yn ymateb[5] y Llywodraeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad[6] ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), ystyriwyd cydgrynhoi rhannau perthnasol o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 wrth lunio'r Bil. Byddai gwneud hynny yn arwain at leihau cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

25. Fel y nodwyd yn yr adroddiad cyntaf, caiff gwaith ar bennu cwmpas prosiectau sydd i'w cwblhau yn y dyfodol ei wneud yn ddiweddarach yn ystod y rhaglen hon.

[5] Eich cyf (senedd.cymru)
[6] Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (senedd.cymru)

*Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007*

26. Mae gwaith wedi cychwyn ar gydgrynhoi ac ail wneud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Mae Gorchymyn 2007 dros 270 tudalen o hyd ac ar gael yn Saesneg yn unig (ar wahân i'r ffurflenni yn yr Atodlenni) ond bydd y Gorchymyn newydd yn gwbl ddwyieithog ac yn ymgorffori'r holl newidiadau angenrheidiol o'r prosiectau i Ddiwygio'r Senedd a'r drefn Etholiadol, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft o'r Gorchymyn, fel sail ar gyfer gwaith pellach.

## Codeiddio cyfraith Cymru

Ymrwymiadau'r rhaglen:

Nid oedd unrhyw gynigion i godeiddio cyfraith Cymru ar unwaith yn y rhaglen, ond bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

*Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023*

27. Canlyniad cydgrynhoi cyfraith yr amgylchedd hanesyddol yw bod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn ffurfio rhan o God y gyfraith ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Bydd y Cod hwn hefyd yn cynnwys yr is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf 2023 (gweler paragraffau 9 i 13 o'r adroddiad hwn).

*Codeiddio cyfraith gynllunio*

28. Yn ogystal â chreu Cod y gyfraith ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol bwriadwn greu cod y gyfraith ar gyfer cynllunio yng Nghymru hefyd, drwy gydgrynhoi cyfraith gynllunio. Er bod cynnwys terfynol y Cod hwnnw eto i'w bennu, bwriedir i ddatganiad o'r statws hwn helpu pobl sydd â diddordeb yn y gyfraith ar faes penodol – cynllunio gwlad a thref yn yr achos hwn – ddod o hyd iddi a'i dosbarthu y rhwyddach. Bydd y Cod hwn ar gyfraith gynllunio hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth.

*Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog*

29. Pan roddodd y Cwnsler Cyffredinol dystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (fel yr oedd bryd hynny), pwysleisiodd yr ymrwymiadau blaenorol i ymgynghori â'r Llywydd am newidiadau posibl i'r Rheolau Sefydlog o ran Codau'r gyfraith. Yn y dyfodol disgwylir y bydd newidiadau i'r gyfraith sy'n ffurfio rhan o God yn cael eu gwneud drwy ddiwygio neu amnewid y deddfiadau yn hytrach na thrwy wneud darpariaethau gwahanol, annibynnol, a fyddai'n arwain unwaith eto at liaws cymhleth o ddeddfiadau.

30. Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn nodi'r cynnydd o ran hyn.

## Cyfathrebu cyfraith Cymru

Ymrwymiadau'r rhaglen:

Yn ystod tymor y Senedd hon bydd y Llywodraeth yn:

a. gweithio gyda'r tîm sy'n gyfrifol am legislation.gov.uk i sicrhau bod Deddfau ac Offerynnau Statudol dwyieithog ar gael ar ffurf gyfoes yn y ddwy iaith.

b. ehangu a gwella cynnwys gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales yn sylweddol er mwyn creu 'siop un stop' i gyrchu a deall cyfraith Cymru.

c. archwilio ffyrdd o symud draw o fodel cyhoeddi deddfwriaeth yr 20fed ganrif, sy'n seiliedig ar fersiynau print, i system ddigidol fodern.

d. datblygu'r ffordd yr ydym yn llunio deddfwriaeth ddwyieithog, gan ddefnyddio technoleg iaith i'w llawn botensial.

e. archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

### *Cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd*

*Sicrhau bod cyfraith Cymru ar gael ar ffurf gyfoes ar wefan legislation.gov.uk*

31. Fel y nodwyd yn yr adroddiad cyntaf, mae'r tîm golygyddol yn adran Gwasanaethau Deddfwriaeth yr Archifau Gwladol wedi datblygu swyddogaethau gwefan legislation.gov.uk fel bod modd gwneud diwygiadau i destunau Cymraeg deddfwriaeth.

32. Ers i'r system newydd ddechrau cael ei defnyddio ym mis Hydref 2022 mae criw bychan yn Swyddfa Codau Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyflwyno diwygiadau wedi eu hanodi i destunau Cymraeg a Saesneg cyfraith Cymru ar y safle. Felly yn ogystal â bod testunau dwyieithog Deddfau, Mesurau ac Offerynnau Statudol yn cael eu diweddaru, mae'r anodiad sy'n egluro pob effaith hefyd ar gael yn ddwyieithog i'r rheini sy'n darllen cyfraith Cymru, am y tro cyntaf erioed.

33. Mae cyfanswm o fwy na 104,000 o "effeithiau" (newidiadau y mae angen eu gwneud er mwyn cyflwyno deddfwriaeth a ddiwygiwyd ar ffurf gyfoes, ac egluro'r hyn sydd wedi digwydd) wedi eu gwneud i ddeddfwriaeth Cymru er 1999. Erbyn diwedd Medi 2023 roedd bron i 60% o'r rhain wedi eu cymhwyso. Tîm golygyddol yr Archifau Gwladol ei hun oedd yn arfer delio â diwygiadau i'r testun Saesneg, ond erbyn hyn mae'r Swyddfa Codau Deddfwriaethol wedi bod yn delio â'r holl destunau Cymraeg ynghyd â nifer o

ddiwygiadau i’r testunau Saesneg. Yn ystod deuddeg mis cyntaf y prosiect, mae tua 40,000 o effeithiau wedi eu cymhwyso.

34. Mae’r pwyslais wedi bod ar ddiweddaru deddfwriaeth sylfaenol, ond wrth i’r gwaith hwnnw ddechrau dod i ben rydym hefyd wedi dechrau diweddaru grwpiau penodol o offerynnau statudol. Rydym wedi bod yn blaenoriaethu’r rheini sy’n ymwneud â’r Deddfau Rhentu Cartrefi a pheth deddfwriaeth ym maes llywodraeth leol. Bellach rydym yn targedu’r ddeddfwriaeth sy’n cael ei chyrchu amlaf ar legislation.gov.uk, mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr a diogelwch bwyd, er enghraifft.

35. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod:

    a. 96% o Ddeddfau a Mesurau Cymru wedi eu diweddaru yn y ddwy iaith. Ein blaenoriaeth yn awr yw sicrhau bod y rhain yn dal i gael eu diweddaru wrth iddynt gael eu diwygio gan ddeddfwriaeth a wneir naill ai gan Senedd Cymru neu gan Senedd y Deyrnas Unedig.

    b. 43% o Offerynnau Statudol Cymru (y mae mwy na 6,100 ohonynt) wedi eu diweddaru yn y ddwy iaith, gydag ychydig dros 40,000 o effeithiau i’w cymhwyso (rhyw 29,000 i destunau Cymraeg a rhyw 11,000 i destunau Saesneg).

36. Er bod cynnydd aruthrol wedi ei wneud yn y flwyddyn gyntaf, mae graddau’r gwaith sydd eto i’w gwblhau - yn enwedig o ran testunau Cymraeg - yn golygu bod hwn yn brosiect hirdymor ac yn un lle mae’r gorwel yn symud drwy’r amser: er inni ddelio â 40,000 o effeithiau yn ystod y deuddeg mis cyntaf, dim ond 10,000 yw’r gostyngiad yn y gwaith sydd wedi cronni, oherwydd yn ystod yr un cyfnod ychwanegwyd 30,000 o effeithiau i’r system ar gyfer eu cymhwyso. Yn ogystal â hynny, nid yw nifer yr effeithiau yn adlewyrchiad realistig o’r ymdrech: er enghraifft, wrth gwblhau gwaith ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ddiweddar roedd angen gwneud 436 o anodiadau a diwygiadau gwahanol er mwyn cwblhau un dasg.

37. Mae’r Swyddfa Codau Deddfwriaethol yn parhau i gydweithio’n agos â’r Archifau Gwladol i ganfod a datrys unrhyw faterion annisgwyl sy’n codi o ran y broses olygyddol. Mae’r berthynas waith agos hon wedi bod yn allweddol o ran sicrhau’r cynnydd sylweddol a welwyd hyd yma.

38. Mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi gwneud Datganiadau Ysgrifenedig ar gynnydd i’r Aelodau yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen anodi; yn y dyfodol disgwylir y bydd diweddariadau yn cael eu cyflwyno mewn adroddiadau blynyddol dilynol.

*Ehangu a gwella gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales*

39. Yn ystod y flwyddyn dechreuwyd datblygu adran fawr newydd o wefan Cyfraith Cymru/Law Wales o'r enw "Deddfwriaeth yng Nghymru". Mae'n rhestru pob darn o ddeddfwriaeth sylfaenol a wnaed yng Nghymru ers datganoli yn ôl blwyddyn, a phan fydd yr adran yn gyflawn, bydd gan bob Deddf neu Fesur dudalen benodol . Hyd yn hyn, cyhoeddwyd y tudalennau ar gyfer pob Deddf rhwng Ionawr 2019 a Mai 2023, ac fe ddylai gweddill y tudalennau fod ar gael erbyn diwedd 2023.

40. Mae'r dudalen benodol ar gyfer pob Deddf yn cynnwys:
    a. crynodeb o'r hyn mae'r Ddeddf yn ei wneud
    b. dolen i'r Ddeddf ei hun ar legislation.gov.uk
    c. dolenni i'r Nodiadau Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol
    d. dyddiadau allweddol gan gynnwys y Cydsyniad Brenhinol a phryd y daeth i rym
    e. gwybodaeth allweddol am gyflwyno'r Bil
    f. ystyriaeth y Senedd o'r Bil a dolenni i wefan y Senedd i gael manylion pellach
    g. rhestr o'r holl is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf, gan gynnwys dolenni i'r ddeddfwriaeth ar legislation.gov.uk a'r Memorandwm Esboniadol (os yw ar gael) neu ddolenni i'r is-ddeddfwriaeth berthnasol a wnaed ar ffurf heblaw offeryn statudol ar wefan gov.wales
    h. erthyglau, canllawiau neu wybodaeth ategol.

41. Wrth weithio ar hyn daeth i'r amlwg nad yw tudalennau'r Biliau ar wefan y Senedd bob amser yn cynnwys y fersiwn terfynol o'r Memorandwm Esboniadol i Fil (sydd fel arfer yn cael ei ddiweddaru ar ôl i'r Bil gael ei basio, a'u cyhoeddi ar wefan gov.wales). Byddwn yn darparu'r fersiynau a ddiweddarwyd ddiwethaf o Femoranda Esboniadol i Filiau i'r Senedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod gwefan y Senedd yn dangos yr wybodaeth lawn, a bydd tudalennau'r Deddfau ar Cyfraith Cymru/Law Wales yn cysylltu â'r fersiynau diweddaraf hynny.

42. Disgwylir i'r tudalennau newydd hyn gryfhau hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru gan mai dyma fydd yr unig adnodd ar gael sy'n dangos yr holl is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf mewn un lle – rhywbeth y gwyddom fod rhanddeiliaid wedi gofyn amdano yn y gorffennol. Bydd cynnwys yr is-ddeddfwriaeth a wnaed ar ffurf heblaw offeryn statudol (fel cyfarwyddydau, cynlluniau, canllawiau a datganiadau) hefyd yn ehangu'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr.

43. Ychwanegwyd darnau gan gyfranwyr allanol i'r safle hefyd (cwmnïau cyfreithiol sy'n gweithio yng Nghymru, yn bennaf), ar ffurf erthyglau.

44. Yn ddiweddar comisiynodd Cyngor Cyfraith Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, ymchwil ar addysg ym maes y gyfraith gyhoeddus yng Nghymru. Er nad yw'r adroddiad hwnnw ar gael eto, cyfeiriwyd at y defnydd o wefan Cyfraith Cymru/Law Wales, a'i pherthnasedd, mewn sesiwn gasglu tystiolaeth gyda darparwyr a rhwydweithiau cynghori, academyddion ac eraill, a

gynhaliwyd yn ystod haf 2023. Roedd galwadau hefyd i gryfhau a datblygu'r wybodaeth ar y safle.

*Nodi cyfleoedd i wella hygyrchedd digidol deddfwriaeth*

45. Rhaid inni gydweithio ag Argraffydd y Brenin a swyddogion yn yr Archifau Gwladol er mwyn cyflawni rhai o ymrwymiadau'r rhaglen o ran hygyrchedd digidol. Fel y nodwyd yn yr adroddiad blaenorol ac yn gynharach, maent wedi parhau i flaenoriaethu'r gwaith o anodi testunau Cymraeg cyfraith Cymru yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Maent yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda ni er mwyn parhau i ddatblygu a gwella hygyrchedd digidol deddfwriaeth, ond roeddem wedi gobeithio gwneud rhagor o gynnydd.

46. Gweler paragraffau 61 a 62 hefyd ar ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru.

*Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cofrestru, cyhoeddi a chadw is-ddeddfwriaeth*

47. Dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu opsiynau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer cofrestru, cyhoeddi a chadw is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys offerynnau statudol ac is-ddeddfwriaeth heb fod ar ffurf offeryn statudol). Rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn ystod y deuddeg mis nesaf, os bydd adnodd staffio ar gael. Bydd diweddariad ar y gwaith yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

*Adolygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn llunio deddfwriaeth ddwyieithog*

48. Mae Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r broses o gaffael meddalwedd cof cyfieithu a rheoli terminoleg newydd. Cynhaliwyd gwaith profi dros yr haf a chyflwynwyd y system newydd yn llawn ar 18 Medi 2023. Rhagwelir y bydd y system newydd yn gwneud y broses gyfieithu yn fwy effeithlon a chywir, ac yn golygu y bydd modd mabwysiadu ffyrdd mwy effeithlon o ymchwilio i derminoleg, safoni termau ac ymgynghori arnynt.

49. Mae'r prosesau safoni termau arferol sy'n gysylltiedig â phrosiectau Biliau wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, dilynwyd y broses safoni ar gyfer deddfwriaeth ym maes democratiaeth, ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru). Bydd y termau hyn hefyd yn werthfawr ar gyfer gwaith deddfwriaethol pellach yn y maes hwn. Mae'r gwaith ar ddeddfwriaeth ym maes democratiaeth yn golygu bod 95 o dermau newydd, termau wedi eu diwygio neu dermau wedi eu cadarnhau yng nghronfa ddata BydTermCymru.

50. Yn ystod y cyfnod adrodd cynhaliwyd adolygiad o'r deunyddiau cyfeirio deddfwriaethol sydd ar gael ar BydTermCymru. O ganlyniad i'r adolygiad, a thrafodaethau parhaus rhwng y Gwasanaeth Cyfieithu, Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a'r Adran

Gwasanaethau Cyfreithiol, cafodd cyfanswm o 38 o gofnodion eu hychwanegu neu eu diweddaru rhwng mis Hydref 2022 a mis Medi 2023.

51. Mae’r Gwasanaeth Cyfieithu hefyd wedi cynnal sesiynau cynefino ar gyfer aelodau newydd o Swyddfa’r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae’r broses gyfieithu yn gallu helpu i wella’r testun yn y ddwy iaith. Cyfrannwyd hefyd at sesiwn wybodaeth ar gyfer holl staff yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, gan ganolbwyntio ar gydweithio rhwng Uned Cyfieithu Deddfwriaeth ac Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

52. Fel rhan o broses gaffael i sefydlu Cytundeb Fframwaith newydd i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu-ar-y-pryd i Lywodraeth Cymru, sefydlwyd is-lot penodol ar gyfer deddfwriaeth. Rhagwelir y bydd hyn yn rhoi cyfle i feithrin arbenigedd pellach yn y maes ymysg cyflenwyr allanol.

53. Cyhoeddwyd Polisi Seilwaith Ieithyddol y Gymraeg ddiwedd mis Mehefin 2023. Un o nodau’r Polisi oedd sefydlu Uned newydd o fewn Llywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol am seilwaith ieithyddol y Gymraeg. Mae’r uned honno wedi ei sefydlu bellach. Nod arall oedd creu gwefan newydd i farchnata a hyrwyddo’r adnoddau sydd ar gael, fel geiriaduron a therminoleg, i’w gwneud yn haws i bobl eu defnyddio a dod o hyd i atebion yn y Gymraeg. Yn y pen draw bydd y gwasanaeth hwn yn helpu i sicrhau bod terminoleg ddeddfwriaethol safonedig ar gael yn eang. Bydd hefyd yn codi proffil y gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn.

54. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid[7] i’r Uned Technolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu cyfres o adnoddau technoleg iaith. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu teclyn cyfieithu peiriant parth-benodol ar gyfer maes y gyfraith. Bellach gall pobl sy’n gweithio ym maes cyfiawnder a’r gyfraith ddefnyddio teclyn cyfieithu peiriant newydd a gynlluniwyd yn benodol gan ddefnyddio data deddfwriaethol. Nod y teclyn yw darparu cyfieithiadau mwy manwl-gywir na’r rheini a ddarperir gan offer cyfieithu peiriant cyffredinol, a dangosodd profion cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023 (drwy fesur y gwahaniaeth rhwng cyfieithu awtomatig a chyfieithiadau cyfeirio a grëwyd gan bobl o’r un brawddegau ffynhonnell) lefel gywirdeb anarferol o uchel. Mae hyn yn addawol iawn o safbwynt y defnydd ymarferol o’r teclyn yn y dyfodol.

55. Wrth gwrs, rhaid i’r testun sy’n cael ei greu gan y peiriant gael ei olygu gan gyfieithydd neu olygydd cymwys wedyn, cyn iddo gael ei gyhoeddi. Wrth i dechnoleg cyfieithu peiriant ddod yn fwy a mwy soffistigedig a dibynadwy, mae rôl y cyfieithydd yn dechrau esblygu, felly, i fod yn fwy o swyddogaeth olygu arbenigol, gan ganiatáu i gyfieithwyr ganolbwyntio ar wneud gwell defnydd o’u sgiliau ieithyddol. Rydym hefyd yn ystyried sut

[7] Dyrannwyd £350,000 i ddatblygu’r gyfres hon o adnoddau yn 2022-23

y gallai'r datblygiadau hyn alluogi cwnsleriaid deddfwriaethol i gynhyrchu rhagor o'r testun yn gyfochrog, yn amodol ar adolygiad golygyddol o'r ddwy iaith.

56. Mae'r teclyn ar gael drwy fynd i [Cyfieithu Peiriant parth-benodol (techiaith.cymru)] a dewis y tab Deddfwriaeth.

*Diweddaru canllawiau a llunio canllawiau ychwanegol*

57. Mae'r gwaith o adolygu canllawiau drafftio Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol, *Drafftio Deddfau i Gymru,* wedi dechrau a rhagwelir y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi yn ystod y cyfnod adrodd nesaf. Mae'r gwaith hwn yn digwydd ochr yn ochr â'r cyfarfodydd mewnol rheolaidd y bydd Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn eu cynnal i drafod a chytuno ar ffyrdd o ymdrin â mân bwyntiau. Sefydlwyd grŵp defnyddwyr hefyd i rannu arferion da a gwneud y defnydd gorau o'r feddalwedd ddrafftio, Legislative Workbench 360.

## Prosiectau eraill

| Ymrwymiadau'r rhaglen: |
|---|
| Yn ystod tymor y Senedd hon, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith. |

### *Cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd*

*Gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith*

58. Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr eto i gyhoeddi ei gynigion ar gyfer ei Bedwaredd Rhaglen ar Ddeg i Ddiwygio'r Gyfraith, ond mae'n dal i fod wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru i ddod o hyd i brosiectau addas sy'n ymwneud â'r gyfraith.

59. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddefnyddio eu pwerau i gyfeirio materion at Gomisiwn y Gyfraith er gwybodaeth ac i gael ei gyngor. Yn y gorffennol mae atgyfeiriadau o'r fath wedi arwain at gwblhau prosiectau y mae Llywodraeth Cymru yn awr yn bwrw ymlaen â hwy – gosododd Gweinidogion Cymru eu [hwythfed adroddiad blynyddol] ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith gerbron y Senedd ar 15 Chwefror 2023.

60. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith ar ddirmyg troseddol a dirmyg sifil. Mae Comisiwn y Gyfraith yn gobeithio cyhoeddi papur ymgynghori yn fuan yn 2024, yn gwahodd barn ar

eu cynigion drafft ar gyfer diwygio. Ym mis Medi 2023 gofynnodd y Prif Weinidog i Gomisiwn y Gyfraith gynnwys tribiwnlysoedd datganoledig yn y prosiect hwn.

### *Ffurf a strwythur deddfwriaeth Cymru*

61. Yn 2021 ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at y Llywydd ynglŷn â rhai newidiadau arfaethedig i ffurf a strwythur Deddfau ac Offerynnau Statudol Cymru. Rhagwelwyd y byddai'r Senedd yn ystyried y materion hyn, ond gan nad oes gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y capasiti i wneud hynny ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ar y materion hyn ei hun, gyda golwg ar gytuno ar unrhyw newidiadau terfynol â'r Llywydd (pan fo'r newidiadau hyn yn effeithio ar ffurf Biliau'r Senedd), Argraffydd y Brenin, y Llyfrfa, yr Archifau Gwladol (pan fo'r newidiadau yn debygol o effeithio ar argraffu a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru), ac eraill fel y bo'n briodol.

62. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r canlynol:
    a. a oes angen cynnwys enw 'hir' yn ogystal ag enw 'byr' i Fil/Deddf y Senedd;
    b. darpariaethau trosolwg ym Miliau/Deddfau'r Senedd;
    c. symleiddio neu hepgor y geiriau deddfu yn Neddfau'r Senedd;
    d. y defnydd o ddyddiadau yn Neddfau'r Senedd (o ran dyddiad y Cydsyniad Brenhinol, er enghraifft);
    e. mabwysiadu cymhorthion llywio yn Neddfau'r Senedd, ac o bosibl mewn Offerynnau Statudol hefyd, megis ychwanegu penynnau at y ddogfen i ddangos y Rhan neu'r Atodlen berthnasol;
    f. y ffurfdeip a ddefnyddir yn Neddfau'r Senedd ac mewn Offerynnau Statudol;
    g. mabwysiadu dulliau sy'n helpu i wella hygyrchedd digidol ac argraffedig fel ei gilydd.

## Materion eraill

### *Cywiriadau i Offerynnau Statudol Cymru*

63. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol ddwywaith yn ystod y cyfnod sydd dan sylw yr adroddiad hwn, ynglŷn â chywiro Offerynnau Statudol Cymru. Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd wedi ymateb i'r mater hwn fel rhan o ohebiaeth yn dilyn sesiynau tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

64. Mae'r Llywodraeth yn sefydlu proses newydd i sicrhau bod Aelodau'r Senedd yn cael gwybod am unrhyw fân gywiriadau neu gywiriadau technegol a wneir cyn i offeryn drafft sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol gael ei wneud.

*Cynhadledd Ewrop 2023 y Commonwealth Association of Legislative Counsel*

65. Ym mis Mai 2023, cyfrannodd swyddogion o Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol at drefnu Cynhadledd Ewrop 2023 y Commonwealth Association of Legislative Counsel (CALC). Nod y gymdeithas hon yw hyrwyddo cydweithredu o ran materion sydd o ddiddordeb proffesiynol i'r rheini sy'n drafftio deddfwriaeth neu'n hyfforddi pobl i wneud hynny.

66. Cynhaliwyd cynhadledd Ewrop yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd eleni, a pan ddaeth 140 o gynrychiolwyr at ei gilydd o bob cwr o'r byd. Roedd hygyrchedd y gyfraith ac eglurder wrth ddrafftio deddfwriaeth yn thema amlwg yn ystod y digwyddiad deuddydd, a oedd yn cynnwys:

    a. prif araith ar y diwrnod cyntaf gan y Gwir Barchedig a'r Gwir Anrhydeddus Ddr Rowan Williams, cyn Archesgob Caergaint, a rannodd ei fyfyrdodau ar y gyfraith a sofraniaeth a chwestiynau yn ymwneud â diffiniadau, a oedd yn deillio o'i rôl fel cyd-gadeirydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru;

    b. prif araith ar yr ail ddiwrnod gan Eleanor Sharpston CB, cyn Adfocad Cyffredinol yn Llys Cyfiawnder Ewrop, a rannodd ei myfyrdodau ar ddrafftio deddfwriaeth yn amgylchedd amlieithog, amlddiwylliannol yr Undeb Ewropeaidd, a'r cyfaddawdu sy'n angenrheidiol wrth setlo ar destunau deddfwriaethol yn yr amgylchiadau hynny;

    c. araith gan Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol y Llywodraeth, yn dwyn y pennawd *Canon to confusion: what has happened to the law? Reflections on the statute book, the legal response to the pandemic and the rule of law*, ble rhannodd ei fyfyrdodau ar y profiad o ddeddfu'n ddwyieithog yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19, a'r ymdrech sylweddol a wnaed i sicrhau bod y cyhoedd yn deall y cyfyngiadau a oedd mewn grym ar unrhyw adeg;

    d. amrywiaeth o sesiynau grŵp dan arweiniad swyddogion eraill o Lywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddrafftio dwyieithog a diweddaru ac anodi deddfwriaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar legislation.gov.uk.

*Cyfarfodydd rhwng swyddfeydd i drafod dulliau o ymdrin â deddfwriaeth ar draws y Deyrnas Unedig*

67. Ym mis Chwefror 2023 sefydlwyd grŵp cyfnod penodol i ystyried materion sy'n ymwneud â drafftio deddfwriaeth sy'n gyffredin ar draws y DU. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair swyddfa ddrafftio yn y DU (Cymru, Lloegr/y DU, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon) ac o'r Archifau Gwladol. Ei gylch gorchwyl yw ystyried:

    a. a oes pethau y gallai'r pedair swyddfa ddrafftio gytuno i'w gwneud yn gyson neu egwyddorion y gallent i gyd eu dilyn wrth weithredu yn yr un meysydd (e.e. a ddylent fod yn ceisio creu testunau ar wahân, a ddylid osgoi testunau cyfochrog etc.)

    b. a oes pethau y mae Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol yn ei wneud yn Neddfau'r DU sy'n gwneud bywyd yn fwy cymhleth i'r swyddfeydd drafftio eraill (ac i'r gwrthwyneb).

68. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol ac mae'n bwriadu cyflwyno ei argymhellion i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf Penaethiaid y Swyddfeydd Drafftio tua dechrau 2024.

## Diwygio'r rhaglen

69. Mae adran 2(6) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn caniatáu i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio'r rhaglen.

70. Bwriedir diwygio'r rhaglen er mwyn cynnwys:
    a. ymrwymiad i greu Cod y gyfraith ar gyfer cynllunio, ac i ddangos fod Cod ar gyfraith yr amgylchedd hanesyddol wedi ei greu
    b. gwybodaeth am y prosiect i gryfhau'r ffordd y caiff is-ddeddfwriaeth ei chyhoeddi, ac
    c. ymrwymiad i ymgynghori ar gynigion i wella ffurf a strwythur deddfwriaeth.

71. Caiff y rhaglen ddiwygiedig ei gosod gerbron y Senedd yn nes ymlaen eleni.

## Materion i gloi

72. Ymysg uchafbwyntiau'r deuddeg mis diwethaf mae pasio Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ym mis Mawrth 2023 (gan ffurfio'r Cod cyntaf o gyfraith Cymru), a'r cynnydd da a wnaed gan staff Llywodraeth Cymru yn cymhwyso diwygiadau wedi eu hanodi i destunau Cymraeg a Saesneg cyfraith Cymru ar safle legislation.gov.uk. Mae'r naill beth a'r llall yn gamau mawr ymlaen o ran trin y ddwy iaith yn gyfartal a datblygu'r Gymraeg fel iaith y gyfraith.

73. Mae'r Archifau Gwladol dal i fod yn bartner hanfodol o ran ein helpu i wella hygyrchedd y gyfraith – o ran y ffordd y caiff deddfwriaeth ei hargraffu a'i chyhoeddi, a'r ffordd y caiff ei darparu ar ffurf ddigidol y gellir ei chyrchu a'i defnyddio'n rhad ac am ddim. Fodd bynnag, oni bai a hyd nes y bydd yn gallu bwrw ymlaen â blaenoriaethau'r rhaglen i ddatblygu swyddogaeth y safle fel y gellir cyrchu deddfwriaeth Cymru yn ôl pwnc, nid oes fawr o gyfle i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r prosiect hwn.

74. Drwyddi draw, deuwn i'r casgliad fod y rhaglen yn dal i fod ar y trywydd iawn ac rydym yn falch o roi gwybod am y cynnydd da a wnaed ac am y bwriad i ehangu'r rhaglen i adlewyrchu'r gwaith pellach sydd ar y gweill.

# Adolygiad o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

## *Crynodeb o'r Ddeddf*

1. Pasiwyd Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd) ar 16 Gorffennaf 2019 ac fe gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2019. Mae Deddf 2019 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru wella hygyrchedd cyfraith Cymru:

    a. Mae Rhan 1 yn gosod dyletswyddau ar Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru yn ymwneud â hygyrchedd cyfraith Cymru.

    b. Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch dehongli a gweithredu Deddf 2019 ei hun a deddfwriaeth Cymru a ddeddfir ar ôl i Ran 2 ddod i rym.

    c. Mae Rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau yn neddfwriaeth Cymru ac i wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau, ac mae'n darparu ar gyfer cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau yn y Senedd (fel y'i gelwir erbyn hyn).

    d. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall a darpariaeth ynghylch pryd a sut y bydd Deddf 2019 yn dod i rym.

2. Mae Deddf 2019 yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ac egluro a symleiddio'r ffordd y mae deddfwriaeth Cymru'n gweithredu.

## *Ymrwymiad i ddiwygio Deddf 2019*

3. Pan gyflwynwyd y Bil[8], a fyddai'n dod yn Ddeddf 2019, i'r Cynulliad Cenedlaethol, ymrwymodd y Llywodraeth y byddai'r deddfwriaeth yn cael ei hadolygu yn 2026 ar ddiwedd y tymor Cynulliad cyntaf lle y byddai rhaglen o dan Ran 1 o Ddeddf 2019 wedi ei chyflwyno. Yn ystod y gwaith craffu ar y Bil, ystyriwyd yr ymrwymiad hwn gan y Pwyllgor a oedd yn gyfrifol am y Bil, sef y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor hwnnw, argymhellwyd[9]:

---

[8] Mae Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Bil ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=23311

[9] Ar gael yn: cr-ld12462-w.pdf (senedd.wales)

*Argymhelliad 6. Ar yr amod bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, dylai'r Cwnsler Cyffredinol ymrwymo i adolygu'r ddeddfwriaeth hanner ffordd drwy dymor cyntaf y Cynulliad pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym, h.y. erbyn diwedd 2023.*

4. Derbyniodd y Cwnsler Cyffredinol, yr Aelod a oedd yn gyfrifol am y Bil, yr argymhelliad hwn, ynghyd ag argymhelliad cysylltiedig y dylid cyflwyno adroddiadau blynyddol (yn hytrach na rhai cyfnodol) ynglŷn â hynt y gwaith o dan raglen a luniwyd o dan Ran 1 o'r Bil. Yn ystod y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2019, eglurodd[10] y Cwnsler Cyffredinol y byddai'r Llywodraeth, fel rhan o'r broses adrodd flynyddol *"yn adolygu effeithiolrwydd Rhan 1 y Bil hanner ffordd drwy dymor nesaf y Cynulliad."*

5. Cyflwynodd y Pwyllgor Cyllid hefyd adroddiad[11] ar y Bil yn ystod ystyriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghyfnod 1. Ei argymhelliad oedd:

   *Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gweithgarwch adolygu perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn ystyried y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran adnoddau yn sgîl cyflawni amcanion y Bil.*

6. Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad hwn hefyd.

7. Ar 18 Mehefin 2019, yn dilyn trafodion Cyfnod 2 ar y Bil, gosododd y Cwnsler Cyffredinol Femorandwm Esboniadol diwygiedig i'r Bil gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Ysgrifennodd[12] hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan nodi:

   *…byddai'r adolygiad canol tymor yn gwneud dau beth yn bennaf. Yn gyntaf, byddai'n adrodd ar gynnydd o ran gweithredu'r rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ac i ystyried a ddylid newid ei chynnwys arfaethedig. Yn ail (ac yn fwy cyffredinol), byddai'n darparu craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Bil ei hun, gan gynnwys Rhannau 2 a 3.*

8. Yn ystod trafodion Cyfnod 2 gerbron y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gwahoddwyd y Cwnsler Cyffredinol i ysgrifennu i'r Pwyllgor yn nodi barn y Llywodraeth ynghylch sut y gallai Aelodau'r Cynulliad ddylanwadu ar gynnwys yr adolygiad canol tymor. Roedd llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 18 Mehefin 2019 yn cynnig:

---

[10] Gweler Cofnod y Trafodion: Y Cyfarfod Llawn 02/04/2019 - Senedd Cymru (cynulliad.cymru)
[11] Ar gael yn: Goblygiadau ariannol y Bil Deddfwriaeth (Cymru) (senedd.cymru)
[12] Ar gael yn: Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit - 18 Mehefin 2019.pdf (senedd.cymru)

*...gwasanaeth fy swyddogion i'r Pwyllgor … er mwyn deall beth fyddai'r Pwyllgor yn ystyried sy'n bwysig, ac i werthfawrogi'n well sut, ym marn yr Aelodau presennol, y gallai Cynulliad y dyfodol gymryd rhan yn y broses o gynnal yr adolygiad canol blwyddyn. Hyderaf y gallai'r sgyrsiau hyn helpu i siapio'r farn y gallai'r Pwyllgor hwn ddymuno ei throsglwyddo i'w olynydd wrth i gyfnod y Cynulliad hwn ddirwyn i ben.*

9. Ni roddodd y Pwyllgor unrhyw farn ar y mater hwn wedyn i swyddogion y Llywodraeth, nac ychwaith mewn unrhyw adroddiad a gyhoeddwyd ar gyfer y Pwyllgor a'i holynodd. Fodd bynnag, yn y Senedd bresennol cyhoeddodd[13] y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad ar *Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24*, ac argymhellodd:

*Argymhelliad 4. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol, erbyn diwedd mis Mawrth, ddarparu dadansoddiad ynghylch pa un a yw'r costau staffio ychwanegol a ragwelwyd i Lywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) yn gywir.*

10. Yn ei ymateb[14], eglurodd y Cwnsler Cyffredinol:

*Yn y gorffennol mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i nodi manylion goblygiadau adnoddau ac ariannol cyflawni'r rhaglen gyntaf sy'n anelu at wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a chostau eraill sy'n deillio o weithredu [Deddf 2019]. Rhoddwyd yr ymrwymiad hwn mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan Bumed Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Senedd a'r Pwyllgor Cyllid, yn dilyn eu gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Deddfwriaeth (Cymru). Cytunodd y Llywodraeth i gynnwys y manylion hyn yn yr adroddiad blynyddol o dan adran 2(7) o Ddeddf 2019 a fyddai'n cael ei wneud yn 2023. Byddaf, felly, yn darparu'r wybodaeth hon yn yr adroddiad a ddisgwylir yn ddiweddarach eleni.*

11. Felly, mae'r adroddiad hwn yn adolygu Rhannau 1 i 3 o Ddeddf 2019 ac yn ystyried goblygiadau'r Ddeddf o ran adnoddau.

## Gweithredu Deddf 2019

### Cychwyn

12. Cafodd Deddf 2019 y Cydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2019. Roedd adran 43 yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y byddai'r Ddeddf yn dod i rym:

---

[13] Ar gael yn: Pwyllgor DCC: Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (senedd.cymru)
[14] Ar gael yn: Eich cyf (senedd.cymru)

a. Daeth Rhan 1 o’r Ddeddf i rym drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, sef 11 Medi 2019. Fodd bynnag, ni chafodd adran 2 effaith uniongyrchol yn ymarferol, oherwydd mai’r tro cyntaf i’r ddyletswydd i lunio rhaglen godi oedd yn ystod tymor y Senedd a ddechreuodd ar ôl i’r adran ddod i rym (hynny yw, y Chweched Senedd a ddechreuodd ar ôl yr etholiad cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Mai 2021).

b. Daeth darpariaethau Rhan 2 Deddf 2019 sy’n gymwys i ddehongli a gweithredu Deddf 2019 ei hun i rym ar 11 Medi 2019. Daeth y pŵer yn adran 5(2) a (3) i ddiwygio Atodlen 1 i rym y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, rhag ofn bod angen diwygio’r Atodlen cyn iddi ddod i rym yn llawn. Nid oedd angen hyn yn y pen draw, er y gwnaed diwygiadau i Atodlen 1 ar ôl iddi ddod i rym yn llawn – gweler paragraff 20(f) isod.

c. Gwnaed gorchymyn gan Weinidogion Cymru i ddod â Rhan 2 i rym mewn perthynas â Deddfau eraill gan y Cynulliad ac mewn perthynas ag is-offerynnau Cymreig. Disgwyliad y Llywodraeth yn ystod y gwaith o ddatblygu’r Bil oedd y byddai’r gorchymyn yn dod â Rhan 2 i rym yn llawn ar ddechrau blwyddyn galendr, fel y byddai modd gwybod oddi wrth y flwyddyn sydd wedi ei chynnwys yn nheitl Deddf neu offeryn ai Rhan 2 ynteu Deddf Dehongli 1978 sy’n gymwys. Cyflawnwyd y disgwyliad hwn, a daeth Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019 â gweddill agweddau Rhan 2 i rym ar 1 Ionawr 2020.

d. Daeth Rhannau 3 a 4 i rym hefyd drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Roedd hyn yn golygu y gellid dibynnu ar ddarpariaethau yn Rhan 3 mewn offerynnau statudol a wneid gan Weinidogion Cymru o’r dyddiad hwnnw ymlaen (neu a osodid ganddynt gerbron y Senedd ar ffurf drafft ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn achos offerynnau sy’n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol ddrafft).

### *Pwerau Gweinidogion Cymru*

13. Rhoddodd Deddf 2019 nifer cyfyngedig o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, y mae rhai ohonynt wedi eu harfer (gweler Tabl 1).

*Tabl 1 – Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a'r defnydd ohonynt*

| **Adran o Ddeddf 2019** | **Disgrifiad o'r pŵer** | **Defnydd** |
|---|---|---|
| Adran 6(2) | Caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu ddiwygio diffiniadau yn Atodlen 1 i'r Bil, yn ôl yr angen. | Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020 |
| Adran 38(1) | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sy'n disgrifio dyddiad neu amser fel ei bod yn nodi'r dyddiad neu'r amser gwirioneddol. | Fe'i defnyddiwyd gyntaf yng Ngorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019 (ond gweler hefyd baragraff 20(b)) |
| Adran 42(1) | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach o ganlyniad i'r Ddeddf, neu i roi effaith lawn iddi. | Heb ei ddefnyddio eto |
| Adran 44(2) | Pŵer i ddod â'r darpariaethau dehongli statudol, i'r graddau y maent yn gymwys i is-offerynnau Cymreig ac i Ddeddfau'r Cynulliad ac eithrio Deddf 2019 ei hun, i rym ar ddyddiad penodol. | Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019 |

14. Roedd Deddf 2019 hefyd yn cynnwys dwy ddarpariaeth ynghylch arfer pwerau mewn deddfwriaeth arall:

    a. mae adran 39 yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer pwerau i wneud rheoliadau, rheolau neu orchmynion drwy wneud unrhyw un arall o'r ffurfiau hynny ar is-ddeddfwriaeth.

    b. mae adran 40 yn ymwneud â chyfuno, mewn un offeryn statudol, is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a fyddai'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad, ac yn sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn fwyaf llym ohonynt.

Mae manylion am y defnydd dilynol o'r darpariaethau galluogi hyn wedi eu nodi o baragraff 38 ymlaen isod.

*Canllawiau ar gyfer gweithredu*

15. Ym mharagraff 205 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil, nododd y Llywodraeth rai camau y gellid eu cymryd i helpu i weithredu'r hyn a fyddai'n dod yn Ddeddf 2019:

    a. Llunio a darparu canllawiau – nododd y Llywodraeth y byddai'n datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau anstatudol i'r rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth. Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r gost. Y bwriad oedd llunio'r canllawiau erbyn y byddai'r darpariaethau dehongli yn dod i rym. Câi'r costau paratoi eu cynnwys yn rhan o'r gwaith arferol, ond amcangyfrifwyd mai'r gost fyddai £5,000 (cost untro yn codi yn 2019/2020). Byddai'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar-lein yn unig.

    b. Gwybodaeth am y newidiadau arfaethedig – nodwyd dau gam gweithredu posibl:

        i. Hysbysu – rhagwelid y byddai angen i ddrafftwyr Llywodraeth Cymru, awdurdodau Cymreig datganoledig eraill sy'n gwneud is-ddeddfwriaeth, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth ac ysgolion cyfraith yng Nghymru gael gwybod am y newidiadau mewn perthynas â dehongli statudol. Y bwriad gwreiddiol oedd rhoi gwybod i sefydliadau a chyrff perthnasol am y Ddeddf newydd, gan ddefnyddio gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales o bosibl, a darparu gwybodaeth am y canllawiau i'r drafftwyr is-ddeddfwriaeth a grybwyllir uchod.

        ii. Hyfforddiant – gallai cyrff fel Cymdeithas y Gyfraith neu Gyngor y Bar ddewis darparu hyfforddiant neu wybodaeth arall am y ddeddfwriaeth newydd i'w haelodau. Rhagwelid hefyd y byddai sesiynau gwybodaeth yn cael eu darparu'n fewnol yn Llywodraeth Cymru.

16. Ar 27 Mai 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *'Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019: Canllawiau ar baratoi deddfwriaeth Cymru'*[15]*.* Cyhoeddwyd y rhain yn hwyrach na'r disgwyl (a hynny'n rhannol er mwyn ystyried newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau 2020[16]), ond roedd drafft cynnar ar gael i'w ddefnyddio o fewn Llywodraeth Cymru hyd nes cyhoeddi'r canllawiau terfynol. Nid oedd unrhyw gostau, ar wahân i'r costau cyfle a oedd ynghlwm wrth yr amser a dreuliodd aelod o

[15] Ar gael yn: Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019: Canllawiau ar baratoi deddfwriaeth Cymru | LLYW.CYMRU

[16] Mae canllawiau ar wahân wedi eu cyhoeddi hefyd ar oblygiadau Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 o ran drafftio deddfwriaeth

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn llunio'r cyngor.  Mae'r canllawiau terfynol yn berthnasol yn bennaf i:

a. cyfreithwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n drafftio Biliau ac offerynnau statudol ar gyfer Gweinidogion Cymru;

b. swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n llunio is-ddeddfwriaeth;

c. cyfreithwyr a swyddogion eraill sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth ar gyfer awdurdodau Cymreig datganoledig (megis is-ddeddfau a chynlluniau a wneir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol).

17. Ers i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, ni chafwyd unrhyw adborth sy'n golygu bod angen eu diweddaru, ac maent yn dal ar gael fel arweiniad defnyddiol.

18. Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019 cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb, ar Rannau 2 a 3 o'r Ddeddf yn bennaf, ar gyfer cyfreithwyr drafftio yn Llywodraeth Cymru.  Daeth oddeutu 100 o gyfreithwyr i'r ddau ddigwyddiad.  Yn fwy diweddar cynhaliwyd sesiwn atodol fis Gorffennaf 2023, drwy MS Teams y tro hwn.  Daeth oddeutu 70 o aelodau staff i'r sesiwn a gellir ei gwylio hefyd fel rhan o'r banc adnoddau sydd ar gael i gyfreithwyr y Llywodraeth. Nid oedd unrhyw gostau heblaw'r costau cyfle a oedd ynghlwm wrth baratoi a mynychu'r sesiwn.

19. Cyhoeddwyd gwybodaeth am Ddeddf 2019 ar wefan Cyfraith Cymru/Law Wales, a chafodd y fersiwn ddiwethaf o'r wybodaeth honno ei chyhoeddi fis Awst 2023.  Mae elfen newydd o'r safle yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, sef tudalen o wybodaeth am bob un o Ddeddfau'r Senedd, ynghyd â dolenni at unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno.  Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r wybodaeth ar gyfer Deddf 2019 wedi ei chynnwys yn rhan o'r gwaith hwnnw. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ychwanegu at y dudalen honno ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

*Diwygiadau i Ddeddf 2019*

20. Mae Deddf 2019 wedi ei diwygio sawl gwaith ers iddi gael ei deddfu. Cafwyd llawer o newidiadau yn rhannol oherwydd ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd ac nid ydym yn rhagweld y bydd y Ddeddf yn cael ei newid mor aml yn y dyfodol. Dyma'r newidiadau a wnaed:

a. Pan gychwynnwyd Rhan 2 o Ddeddf 2019 drwy Orchymyn Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Cychwyn) 2019, defnyddiodd Gweinidogion Cymru'r pŵer yn adran 38(1) o Ddeddf 2019. Felly, roedd y Gorchymyn yn diwygio'r darpariaethau

yn Neddf 2019 sy'n cyfeirio at y diwrnod y daw Rhan 2 i rym, fel eu bod yn cyfeirio yn hytrach at 1 Ionawr 2020.

b. Roedd Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru, a hynny o 6 Mai 2020. Roedd Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn diwygio Deddf 2019 i roi cyfeiriadau at Ddeddfau'r Senedd yn lle cyfeiriadau at Ddeddfau'r Cynulliad, ac i fewnosod diffiniadau yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn ymwneud â Senedd Cymru a Deddfau Senedd Cymru.

c. Roedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 yn gweithredu'r Cytundeb Ymadael, fel y cytunwyd arno rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Roedd y Ddeddf yn ofynnol i roi'r Cytundeb Ymadael ar waith er mwyn iddo gael effaith gyfreithiol ddomestig ac i alluogi Llywodraeth y DU i gadarnhau'r Cytundeb Ymadael. O ganlyniad, diwygiodd y Ddeddf honno Ddeddf 2019 i fewnosod, disodli a diwygio cofnodion yn ymwneud â'r Cytundeb Ymadael ac, yn benodol, y cyfnod gweithredu.

d. Roedd Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 a Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2019 (a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â dehongli cyfraith Cymru a chyfraith arall), i sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ymgorfforwyd mewn cyfraith ddomestig o dan Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn cael ei thrin yn yr un modd â deddfwriaeth yr UE a ymgorfforwyd mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

e. Roedd Deddf Pysgodfeydd 2020, ymhlith materion eraill, yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru er mwyn galluogi'r Senedd i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar faterion pysgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod ym mharth Cymru. O ganlyniad, diwygiodd adran 46 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020 Ddeddf 2019 i fewnosod diffiniad o "parth Cymru" yn Atodlen 1 ac i addasu cyfeiriadau yn Rhannau 1 a 3 o Ddeddf 2019 at is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chymru er mwyn adlewyrchu'n gywir y disgrifiad newydd o "parth Cymru".

f. Gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020 a ddaeth i rym ar 27 Tachwedd 2020. Roedd y Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 2019, i fewnosod darpariaethau ynghylch ystyr pedwar ymadrodd[17] ychwanegol ac i ddiwygio'r diffiniad o'r

[17] "Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol"; "yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol"; "y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus"; a'r "Cod Dedfrydu"

"graddfa safonol" o ddirwyon am droseddau diannod o ganlyniad i'r Cod Dedfrydu (yr ailddatganiad o'r ddeddfwriaeth ddedfrydu a nodir yn Neddf Dedfrydu 2020).

g. Roedd Rheoliadau Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Addasiadau Canlyniadol) (Ymadael â'r UE) 2020 yn diwygio Deddf 2019 (a deddfwriaeth ddehongli gysylltiedig) i fewnosod darpariaethau ynghylch effaith cyfeiriadau at offerynnau'r UE sy'n ffurfio rhan o gyfraith berthnasol ar y cytundeb gwahanu (fel y'i diffinnir yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018) ar neu ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu[18].

21. Bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud i Ddeddf 2019 gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023. Bydd y Ddeddf hon, pan fydd mewn grym yn llawn, yn galluogi cyfraith yr UE a ddargedwir (a elwir yn "REUL") i gael ei diwygio ac yn dileu'r nodweddion arbennig sydd ganddi yn system gyfreithiol y DU. Mae'n gwneud diwygiadau i Ddeddf 2019 i roi cyfeiriadau at "cyfraith a gymathwyd" (a thermau cysylltiedig) yn lle cyfeiriadau at "cyfraith yr UE a ddargedwir" (a thermau cysylltiedig). Mae'r diwygiadau'n cynnwys newidiadau i Atodlen 1 i Ddeddf 2019, a fydd yn disodli'r holl ddiwygiadau a wnaed i Ddeddf 2019 gan Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

### *Rhan 1 o Ddeddf 2019*

22. I lywio'r broses o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, mae adran 1(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol (fel Swyddog y Gyfraith ar gyfer Cymru), adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn rheolaidd. Mae Adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu rhaglen weithredu a gynlluniwyd i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer tymor pob Senedd gan ddechrau â'r tymor yn dilyn yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2021. Er mai mater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol fydd union gynnwys rhaglen, mae adran 2(3) yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhaglen wneud darpariaeth ar gyfer mesurau y bwriedir iddynt gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal ffurf cyfraith sydd wedi ei chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

23. Cafodd y rhaglen gyntaf, *Dyfodol Cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd 2021 i 2026*, ei datblygu yn dilyn yr etholiad cyffredinol i'r Chweched Senedd a chytunodd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol arni cyn iddi gael ei gosod gerbron y Senedd ar 21 Medi 2021.

---

[18]Diwedd y cyfnod o 11 mis o 31 Ionawr 2020 pan oedd y DU yn parhau i fod yn ddarostyngedig i reolau'r UE. (Roedd y cyfnod hwn yn cael ei adnabod yn y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE fel y 'cyfnod pontio'.)

24. Mae adran 2(7) o Ddeddf 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol gael ei lunio ar hynt y gwaith yn unol â'r rhaglen. Gosodwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf gerbron y Senedd ar 7 Tachwedd 2022. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r ail adroddiad blynyddol sydd bellach yn cael ei osod gerbron y Senedd. Mae'r ddau adroddiad blynyddol yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â phob rhaglen (ac nad yw'n cael ei ailadrodd yma).

25. Nodir manylion ynghylch goblygiadau adnoddau'r rhaglen gyntaf hon yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

26. Prif bwrpas Rhan 1 oedd sicrhau ymrwymiad i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Roedd bwriad i hyn gael effaith fel addewid allanol i wneud hawliau a rhwymedigaethau pobl Cymru yn fwy eglur, yn ogystal ag fel dull o sicrhau bod gwella'r sefyllfa yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn Llywodraeth Cymru. Hyd yn hyn credwn fod y Rhan wedi cael yr effaith a ddymunwyd. Mae codeiddio, yn arbennig, wedi ennyn cryn gefnogaeth gan randdeiliaid ac ymwybyddiaeth, ar ran gweinidogion a swyddogion, o'r anawsterau ymarferol a achosir gan ddeddfwriaeth anhygyrch.

27. Rhoddodd pandemig y coronafeirws yr ymrwymiad hwn ar brawf mewn ffordd nad oeddem erioed wedi ei disgwyl. Ar y naill law, arweiniodd y pandemig at arallgyfeirio rhai o'r adnoddau prin a neilltuwyd i'r prosiectau i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch, ond ar y llaw arall roedd ymateb cyfreithiol y Llywodraeth – a seiliwyd ar gyfathrebu gofynion yn eglur â'r cyhoedd yng Nghymru – yn enghraifft o arfer dda a'r modd y gellid gwella pethau o ran pob deddfwriaeth yn y dyfodol. Sylweddolodd y Llywodraeth yn fuan iawn fod angen iddi wneud mwy i sicrhau bod y gyfraith ei hun ar gael yn rhwydd, ac i egluro effaith y gyfraith. Gwnaed cryn ymdrech, o ganlyniad, i gyhoeddi'r gyfraith yn gyflym ac wedi ei diweddaru yn y ddwy iaith, i lunio canllawiau ac i gyhoeddi negeseuon syml ar ffurf cwestiwn ac ateb. Canlyniad hyn, yn ôl astudiaeth gan King's College, oedd bod pobl yn deall y cyfyngiadau yn well o lawer yng Nghymru nag yn Lloegr.

### *Rhan 2 o Ddeddf 2019*

28. Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth a wneir gan y Senedd neu o dan bwerau y mae wedi eu rhoi, ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill.

29. Y sefyllfa cyn i Ran 2 ddod i rym oedd bod Deddf Dehongli 1978 ("Deddf 1978") yn llywodraethu dehongli a gweithredu deddfwriaeth o'r mathau hyn. Mae Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i ddeddfwriaeth a wnaed cyn 1 Ionawr 2020 (pan ddaeth Rhan 2

i rym yn llawn)[19]. Mae Rhan 2 yn gymwys yn unig i ddeddfwriaeth a wnaed ar ôl y dyddiad hwnnw (ac i Ddeddf 2019 ei hun).

30. Mae Rhan 2, felly, wedi bod yn gymwys i 12 o Ddeddfau'r Senedd a ddeddfwyd ers 1 Ionawr 2020, ac i 1,176 o Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru, ynghyd â rhyw 270 o eitemau o is-ddeddfwriaeth a wnaed yn ystod y cyfnod hwn gan Weinidogion Cymru a deddfwriaeth bellach a wnaed gan gyrff eraill (nad yw'r Llywodraeth yn cadw manylion amdanynt).[20]

31. Bwriedid i'r mwyafrif o'r darpariaethau yn Rhan 2 gael yr un effaith â'r darpariaethau yn Neddf 1978, hyd yn oed os cawsant eu mynegi mewn termau gwahanol. Er hynny, roedd rhai gwahaniaethau a nodwyd ac a ddisgrifiwyd yn y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf 2019.

32. Un o'r prif wahaniaethau rhwng y ddwy Ddeddf yw nad yw Deddf 2019 yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf 1978. Mae'r adran honno'n darparu bod i ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd iddynt yn y Ddeddf neu'r Mesur (neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir) y gwneir yr is-ddeddfwriaeth oddi tani neu oddi tano. O ganlyniad mae angen i'r rheini sy'n drafftio offerynnau statudol Cymru ystyried sut orau i sicrhau bod i'r geiriau a ddefnyddir yn yr offeryn yr un ystyr ag yn y ddeddfwriaeth sylfaenol (os dyna'r bwriad). Mae Drafftio Deddfau i Gymru (canllawiau'r Llywodraeth ar ddrafftio deddfwriaeth) a'r canllawiau a gyhoeddwyd ar Ran 2 o Ddeddf 2019 yn ymdrin yn fwy manwl â hyn. Mae tystiolaeth o offerynnau statudol a wnaed ers pasio Deddf 2019 yn dangos bod amryw o ddulliau yn cael eu dilyn, yn dibynnu ar yr effaith sydd ei hangen a ffactorau eraill, megis a yw ystyr benodol yn deillio o gyfraith achos. Mae trafodaethau anecdotaidd â chyfreithwyr drafftio yn y Llywodraeth wedi dangos bod y canllawiau ar y mater hwn a chyd-destun yr offeryn sy'n cael ei baratoi i gyd yn dylanwadu ar y dull sy'n cael ei ddilyn, ac nad oes unrhyw ddull unigol yn cael ei ffafrio.

33. Mae adran 35 o Ddeddf 2019 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch effeithiau diddymu ac ailddeddfu deddfwriaeth bresennol. Mae'n seiliedig ar ddarpariaethau tebyg iawn yn adran 17(2) o Ddeddf 1978, ond fe ehangwyd rhai agweddau arni i hwyluso Deddfau cydgrynhoi'r Senedd (yn benodol, nid yw adran 35 wedi ei chyfyngu i achosion pan fo'r diddymu a'r ail-ddeddfu ill dau yn yr un Ddeddf, ac mae'n galluogi cyfeiriadau at ddeddfiad a ddiddymwyd i gael eu ddarllen fel "yn cynnwys" eu hailddatgan ar gyfer

[19] Mae Deddf 1978 hefyd yn parhau i fod yn gymwys i rai categorïau cyfyngedig iawn o offeryn a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill o dan bwerau penodol ar ôl 1 Ionawr 2020, os yw'r offerynnau hynny hefyd yn cynnwys darpariaethau a wneir gan gyrff nad ydynt yn awdurdodau Cymreig datganoledig neu ddarpariaethau sy'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru

[20] Am y cyfnod hyd at a chan gynnwys 30 Medi 2023

Cymru pan fo hynny'n briodol). Serch hynny, gwnaeth Rhan 1 o Atodlen 14 i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 amryw o ddarpariaethau trosiannol ychwanegol yn delio gyda chyfeiriadau at y Ddeddf honno a'r Deddfau y mae'n eu disodli. Rydym yn ystyried a fyddai o gymorth i gael darpariaethau cyffredinol o'r math hwnnw, fel nad oes angen eu gwneud ar wahân ym mhob un o Ddeddfau'r Senedd sy'n ailddatgan deddfwriaeth bresennol.

34. Gan fod adran 35 yn darparu, pan fo Deddf y Senedd yn ailddatgan Deddf flaenorol, bod is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Ddeddf gynharach yn parhau i gael effaith fel pe bai wedi ei gwneud o dan yr un gynharach. Gall hyn olygu bod rhaid trin is-ddeddfwriaeth yr oedd Deddf 1978 yn gymwys iddi fel pe bai'n ddarostyngedig i Ddeddf 2019 yn awr. Yn gyffredinol ni fydd hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth, o ystyried y tebygrwydd agos rhwng y ddwy Ddeddf a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'u darpariaethau dehongli yn ddarostyngedig i unrhyw fwriad i'r gwrthwyneb yn y ddeddfwriaeth o dan sylw. Fodd bynnag, mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n mynd rhagddo gan y Llywodraeth i gydgrynhoi'r gyfraith, rydym yn ystyried a oes unrhyw achosion pryd y gallai gael effeithiau nas dymunir.

35. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 wedi ei diwygio sawl gwaith. Dim ond un o'r rhain sydd wedi bod yn destun arfer y pwerau yn adran 6(2) o Ddeddf 2019. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ystyried diwygiadau pellach i Atodlen 1 o dro i dro, i gynnwys diffiniadau newydd o dermau neu i ddiweddaru termau, yn ôl y galw.

## *Rhan 3 o Ddeddf 2019*

36. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru newid disgrifiadau o ddyddiadau yn neddfwriaeth Cymru (adran 38); ac i wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau (adran 39). Mae hefyd yn darparu ar gyfer cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Senedd (adran 40).

37. Cafodd y pŵer galluogi yn adran 38 ei ddefnyddio gyntaf yn y gorchymyn cychwyn a wnaed o dan Ddeddf 2019, a oedd yn diwygio'r Ddeddf ei hun. Mae'r pŵer wedi cael ei ddefnyddio wedyn mewn gorchymyn cychwyn arall: Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2 a Diwygiadau Canlyniadol) 2022. Daeth y gorchymyn hwnnw â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym, i'r graddau nad oedd mewn grym yn barod, ar 1 Rhagfyr 2022. Yn ogystal, diwygiodd y gorchymyn 12 o offerynnau statudol i ddisodli cyfeiriadau at y diwrnod y daw adran 239 o'r Ddeddf i rym â chyfeiriad at 1 Rhagfyr 2022. Dyma'r union fath o newid a ragwelwyd pan grëwyd y pŵer galluogi.

Mae'n sicrhau y gallai darllenwyr y 12 o offerynnau statudol hynny weld y dyddiad perthnasol heb orfod gwneud rhagor o ymchwil.

38. Mae adran 39 wedi ei defnyddio i wneud rheoliadau yn lle gorchmynion a rheolau – gweler er enghraifft, Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Etholiadau Lleol (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol) (Cymru) 2022. Mae rheoliadau "Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân" yn enghraifft o paham y crëwyd y pŵer galluogi – mae'r oddeutu 20 o bwerau galluogi yr oedd eu hangen i wneud y rheoliadau hynny wedi eu nodi mewn sawl Deddf, ac mewn un achos (adran 34(4) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004) rhagwelwyd yn wreiddiol y byddent yn cael eu harfer drwy orchymyn. Heb adran 39 o Ddeddf 2019, byddai wedi bod yn ofynnol gwneud dau offeryn ar wahân – sef un set o reoliadau a'r gorchymyn ar wahân. Roedd Adran 39 yn caniatáu gwneud offeryn cyfun, gan wneud y gyfraith yn fwy hygyrch i'r darllenydd.

39. Mae adran 39 hefyd wedi ei defnyddio i wneud gorchymyn, yn hytrach na rheoliadau – gweler Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023. Roedd y Gorchymyn hwn hefyd yn dibynnu ar y pwerau yn adran 40 o Ddeddf 2019, sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol y Senedd gael eu cyfuno mewn un offeryn.

40. Mae adran 40 wedi cael ei defnyddio o leiaf 22 o weithiau ers i'r pŵer ddod i rym (gan gynnwys ar gyfer y Gorchymyn a grybwyllir yn union uchod). Diben yr adran hon yw hwyluso'r broses o gyfuno, mewn un offeryn statudol, ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol, p'un a ydynt yn cael eu gwneud o dan bwerau yn yr un Ddeddf neu mewn Deddfau gwahanol, ac osgoi unrhyw anawsterau gweithdrefnol a gâi eu hachosi drwy gyfuno darpariaethau yn y modd hwn. Mae'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau mwyaf llym a fyddai'n gymwys fel arall. Gwnaed chwe offeryn wedi hynny o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' ac 16 o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

41. Mae cyfeiriad at adran 40 wedi ei gynnwys gan amlaf fel troednodyn i destun rhagarweiniol yr Offeryn Statudol, ond mewn rhai achosion nid oedd hyn yn yr Offeryn Statudol. Yn hytrach cafodd ei dynnu at sylw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd ag Offerynnau Statudol adeg eu gosod. Mewn un achos, roedd yr offeryn a'r Memorandwm Esboniadol ill dau yn cynnwys cyfeiriad at adran 40. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi o leiaf un achos lle y dibynnwyd ar adran 40, ond na chyfeiriwyd at hyn yn yr offeryn nac yn y Memorandwm

Esboniadol. Mae cyfreithwyr drafftio wedi cael eu hatgoffa am y canllawiau ynghylch cyfeirio at adran 40[21].

42. Mae trafodaethau anecdotaidd gyda chyfreithwyr sy'n drafftio o fewn y Llywodraeth wedi dangos bod adrannau 39 a 40 wedi eu defnyddio, ar y cyfan, i ddarparu safbwynt mwy rhesymegol a threfnus i'r rheini sy'n defnyddio deddfwriaeth neu oherwydd ei bod yn hwylus o safbwynt gweinyddol i wneud un offeryn yn hytrach na sawl offeryn.

## *Darparu Adnoddau*

### *Datblygu'r rhaglen, adrodd arni a'i diwygio o dan Ran 1 o Ddeddf 2019*

43. Amcangyfrifwyd yn 2019 bod paratoi'r rhaglen yn gost cyfle o tua £12,000 (yn seiliedig ar 8 wythnos o weithgarwch amser llawn i un swyddog Gradd 7/Band Gweithredol 2)[22].

44. Datblygwyd y rhaglen gyntaf yn ystod cyfnod o weithgarwch dwys i'r Swyddfa Codau Deddfwriaethol, yn ymwneud yn bennaf â pharatoi, cofrestru a chyhoeddi deddfwriaeth a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Gwnaed gwaith ar y rhaglen ochr yn ochr â'r gweithgarwch arall hwnnw, ac nid oes modd pennu a oedd yn cyfateb i'r amcangyfrif gwreiddiol o amser.

45. Ochr yn ochr â'r adroddiadau blynyddol, rhagwelwyd hefyd mai digwyddiad achlysurol fyddai adrodd ar y rhaglen – er enghraifft, pan fyddai'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau, yn gwneud datganiadau neu'n cymryd rhan mewn sesiynau tystiolaeth i Bwyllgorau. Nid oedd y costau sy'n gysylltiedig â hyn yn fesuradwy ond byddent yn gostau cyfle. Mae gweithgarwch o'r math hwn wedi digwydd ers i'r rhaglen gyntaf gael ei pharatoi. Fel rheol, mae gwybodaeth ar gyfer hyn yn cael ei pharatoi gan Bennaeth y Swyddfa Codau Deddfwriaethol fel rhan o ddyletswyddau eraill.

46. Yn 2019, amcangyfrifwyd bod cost cyfle paratoi'r adroddiad blynyddol yn rhyw £3,000 (sef pythefnos o weithgarwch amser llawn gan un swyddog ar radd Band Gweithredol 2)[23]. Mae dau adroddiad blynyddol wedi eu llunio hyd yn hyn. Yn y ddau achos, cawsant eu harwain gan un aelod ar radd Band Rheoli 1 yn y Swyddfa Codau Deddfwriaethol, a fu, fel rhan o ddyletswyddau eraill, yn casglu cyfraniadau o bob rhan o'r sefydliad ar hynt y gwaith o dan bob prosiect. Ni chyfrifwyd yr amser gwirioneddol ar gyfer y gwaith hwn, ond bernir bod yr amcangyfrif gwreiddiol yn llai na'r amser gwirioneddol a gymerwyd.

---

[21] Llywodraeth Cymru (2020) *'Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019: Canllawiau ar baratoi deddfwriaeth Cymru'*

[22] Gweler paragraff 139 a Thabl 4 o'r Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru) (a osodwyd ar 18 Mehefin 2019)

[23] Gweler paragraff 140 o'r Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru) (a osodwyd ar 18 Mehefin 2019)

47. Yn 2019, amcangyfrifwyd y byddai cost cyfle adolygu'r rhaglen yn rhyw ddwy ran o dair o gost paratoi'r brif raglen[24]. Hyd yn hyn nid yw'r rhaglen wedi cael ei hadolygu, felly nid oes unrhyw gostau o'r fath wedi codi.

*Darparu'r rhaglen sy'n ofynnol o dan Ran 1 o Ddeddf 2019*

48. Yn ystod hynt y Bil, gan gynnwys yn yr wybodaeth ategol megis y Memorandwm Esboniadol, pwysleisiwyd y byddai cost wirioneddol pob rhaglen unigol yn dibynnu ar raddfa'r gweithgarwch a fyddai'n rhan ohoni a'r adnodd a gâi ei neilltuo i'r gweithgarwch hwnnw. Nodwyd yr amcangyfrifon gorau o raglen ddangosol yn y Memorandwm Esboniadol[25], a chynhwyswyd rhai costau yn ymwneud â'r staffio ychwanegol disgwyliedig y gallai fod ei angen i gynyddu capasiti drafftio a chyfieithu, yn ogystal â staff eraill i weithio ar y prosiectau anneddfwriaethol (gweler Tabl 2).

*Tabl 2 – Amcangyfrif o gost flynyddol darparu rhaglen hygyrchedd fel y'i nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn 2019*

| **Amcangyfrif o gost flynyddol ychwanegol darparu rhaglen hygyrchedd gan gynnwys 4 neu 5 o filiau cydgrynhoi dros bum mlynedd** | |
|---|---|
| Cost adnodd drafftio sy'n gyfwerth â phedwar Cwnsler Deddfwriaethol | £376,900 |
| Cost adnodd cyfieithu sy'n gyfwerth â dau Gyfieithydd Deddfwriaethol | £93,000 |
| Cost un aelod staff Band Rheoli 2 a dau aelod staff Band Rheoli 3 yn cyflenwi rhaglen dreigl o brosiectau hygyrchedd | £118,500 |
| **CYFANSWM Y COSTAU A AMCANGYFRIFIR** | **£588,400** |

49. O ran y costau ar gyfer pob Bil cydgrynhoi, nodwyd yn glir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil[26]:

> *Amcangyfrifon dangosol yw'r ffigurau a ddyfynnir [ar gyfer pob bil cydgrynhoi] i bob pwrpas, ac ni ddylid ystyried eu bod yn diffiniadol nac yn gynrychioliadol o unrhyw brosiectau cydgrynhoi nac o bob prosiect cydgrynhoi. Y rheswm dros hyn yw nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferion cydgrynhoi o'r math a ragwelir; yn ail,*

[24] Gweler paragraff 141 o'r Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru) (a osodwyd ar 18 Mehefin 2019)
[25] Gweler paragraffau 144 i 147
[26] Paragraff 146

*bydd gan bob prosiect wahanol alwadau a gofynion yn seiliedig ar y gyfraith bresennol sy'n cael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio.*

50. Yr unig gostau y gellid eu meintioli bryd hynny oedd y costau drafftio a chyfieithu ychwanegol a ragwelid.

51. Mae'r profiad a gafwyd o gynhyrchu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a llunio dau Fil arall sy'n ymwneud â rhaglen hygyrchedd y gyfraith wedi dangos mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd yn y radd neu'r math o staff sy'n gysylltiedig â Bil cydgrynhoi a Bil diwygio'r gyfraith. Mae angen gweithwyr polisi proffesiynol, cyfreithwyr pwnc, cyfieithwyr deddfwriaethol a chyfieithwyr cyffredinol, a chwnsleriaid drafftio. Mae'n gofyn am ymrwymiad sylweddol o ran amser ac arbenigedd gan bawb o dan sylw ac mae'n weithgarwch trawslywodraethol. Adlewyrchwyd hyn ym mhapur tystiolaeth[27] y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer ei bresenoldeb ar 16 Ionawr 2023, lle'r esboniodd:

*…mae ein gwaith i gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol yn elfen o waith y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd ac mae'r un peth yn wir am raglen hygyrchedd y gyfraith. Caiff cyfanswm y costau cyffredinol, gan gynnwys costau'r gwaith ar y Bil, eu talu gan ddefnyddio cyllid o sawl portffolio fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad.*

52. Er nad oes modd meintioli'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r swyddogion polisi proffesiynol, y cyfreithwyr pwnc, y cyfieithwyr cyffredinol a'r swyddogion terminoleg proffesiynol o dan sylw, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi bod yn gweithio ar faterion eraill ochr yn ochr â'u gwaith ar y prosiectau cydgrynhoi unigol, mae'n bosibl nodi'r adnodd drafftio a chyfieithu ychwanegol sydd wedi ei ddefnyddio ers mis Hydref 2021 pan ddechreuodd y rhaglen gyntaf (yn Nhabl 3 isod):

*Tabl 3 – Niferoedd gwirioneddol Cwnsleriaid Deddfwriaethol a Chyfieithwyr Deddfwriaethol sy'n gweithio ar brosiectau cydgrynhoi*

| | **Cwnsleriaid Deddfwriaethol** | **Cyfieithwyr Deddfwriaethol** |
|---|---|---|
| Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) | 1 x Cwnsler Deddfwriaethol Cynorthwyol<br>1 x Cwnsler Deddfwriaethol | 2 x Uwch-gyfieithydd Deddfwriaethol<br>*Gweler Nodyn E* |

[27] Ar gael yn: LJC6-02-23 - Papur 2 - Papur gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad 21 Rhagfyr 2022.pdf (senedd.cymru)

| | Cwnsleriaid Deddfwriaethol | Cyfieithwyr Deddfwriaethol |
|---|---|---|
| | 1 x Uwch-gwnsler Deddfwriaethol<br>*Gweler Nodiadau A a D* | |
| Bil Deddfwriaeth (Diddymiadau) (Cymru)[28] | 3 x Cwnsler Deddfwriaethol Cynorthwyol<br>1 x Uwch-gwnsler Deddfwriaethol<br>*Gweler Nodiadau B a D* | 2 x Uwch-gyfieithydd Deddfwriaethol<br>*Gweler Nodyn F* |
| Bil Cynllunio (Cymru) [29] | 2 x Cwnsler Deddfwriaethol Cynorthwyol<br>1 x Cwnsler Deddfwriaethol<br>1 x Uwch-gwnsler Deddfwriaethol<br>*Gweler Nodiadau C a D* | 2 x Uwch-gyfieithydd Deddfwriaethol<br>*Gweler Nodyn F* |

<u>Nodiadau</u>

(a) Roedd y Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cynorthwyol a neilltuwyd ar gyfer y prosiect hwn yn gweithio ar un agwedd ar y Bil ochr yn ochr â phrosiectau eraill; dyrchafwyd yr Uwch-gwnsler Deddfwriaethol i'r radd hon (o radd Cwnsler Deddfwriaethol) yn ystod y prosiect, ac ymunodd â'r prosiect ar gam diweddarach. Gweler hefyd Nodyn (c)

(b) Mae'r pedwar drafftiwr deddfwriaethol wedi gweithio ar y prosiect hwn yn achlysurol mewn cyfnodau tawelach yn eu prosiectau eraill, yn hytrach na'u bod i gyd yn gweithio ar hyn am gyfnod penodedig. Mae'r gwaith ar y prosiect hwn yn parhau a gallai'r adnodd drafftio newid yn y dyfodol

(c) Mae gwaith ar y prosiect cynllunio wedi ei wneud gan rai o'r un Cwnsleriaid Deddfwriaethol a fu'n gweithio ar brosiect yr Amgylchedd Hanesyddol, ac yn ystod cyfnodau amser a oedd yn gorgyffwrdd. Mae'r gwaith ar y prosiect cynllunio yn parhau a gallai'r adnodd drafftio newid yn y dyfodol. Mae gwaith y Cwnsler Deddfwriaethol ar y prosiect hwn wedi digwydd yn ystod bylchau mewn prosiectau eraill

(d) Mae gwaith cyfwerthedd deddfwriaethol wedi ei wneud gan sawl aelod o Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol ar y tri Bil. Nid oes modd meintioli'r niferoedd na'r graddau (na chanran yr amser) a gymerwyd i wneud hyn

(e) Un Uwch-gyfieithydd Deddfwriaethol i wneud y cyfieithiad cychwynnol ac un i'w olygu. Cyfrannodd y ddau hefyd at y broses cyfwerthedd deddfwriaethol. Yn ogystal â hyn, daethpwyd â sawl aelod arall o'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol i mewn ar adegau allweddol o'r prosiect

(f) Un Uwch-gyfieithydd Deddfwriaethol i wneud y cyfieithiad cychwynnol ac un i'w olygu. Bydd y ddau hefyd yn cyfrannu at y broses cyfwerthedd deddfwriaethol. Mae'r gwaith ar y prosiect hwn yn parhau a gallai'r adnodd cyfieithu newid yn y dyfodol

[28] Teitl byr dangosol a ddefnyddir i gyfeirio at Fil a fydd yn diddymu darpariaethau sydd wedi darfod ac wedi eu disbyddu mewn perthynas â Chymru

[29] Teitl byr dangosol a ddefnyddir i gyfeirio at gydgrynhoi cyfraith gynllunio yng Nghymru

*Prosiectau i wella is-ddeddfwriaeth*

53. Nid oes modd meintioli'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r swyddogion polisi, y cyfreithwyr pwnc a'r staff cyfieithu sy'n ymwneud â pharatoi'r prosiectau is-ddeddfwriaeth a nodir yn y rhaglen. Mae'r mwyafrif o'r staff hyn wedi bod yn gweithio, neu maent wrthi'n gweithio, ar faterion eraill ochr yn ochr â'r gwaith hwn, sy'n cael ei wneud fel rhan o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau parhaus.

*Prosiectau anneddfwriaethol o fewn y rhaglen*

54. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi[30]:

> *Mae'n debygol y bydd gweithgareddau mewn rhaglen nad ydynt yn cynnwys cydgrynhoi neu godeiddio yn cynnwys y rhai a wneir i wella cyhoeddi ac esbonio Cyfraith Cymru. Er enghraifft, datblygu ymhellach gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales, ymwneud ymhellach â chyhoeddi'r gyfraith ac ymchwilio i'r technolegau perthnasol sy'n dod i'r amlwg a'u defnyddio ar gyfer y tasgau hyn. Rhan o'r ffocws fyddai materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg lle ceir diffygion sylweddol yn y systemau presennol, fel y nodir gan Gomisiwn y Gyfraith. Câi'r gweithgareddau hyn eu gwneud yn bennaf gan dîm o staff gweinyddol Llywodraeth Cymru ar fand rheoli 2 a 3 yn gweithio'n amser llawn. Amcangyfrifir mai cost hyn yw £118,500 y flwyddyn. Nodir y costau cyfunol ychwanegol (i Lywodraeth Cymru) o ddarparu rhaglen enghreifftiol yn Nhabl 5 isod.*

(gweler hefyd linell 3 o Dabl 2 uchod)

55. Ffurfiwyd y Swyddfa Codau Deddfwriaethol ar ddiwedd 2019 yn dilyn deddfiad Deddf 2019. Mae dau ddiben i'r tîm hwn:

   a. goruchwylio ac, mewn rhai achosion, arwain ar brosiectau allweddol o fewn rhaglen hygyrchedd y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys darparu adnoddau rheoli a llywodraethiant ar gyfer Biliau i gefnogi'r gwaith o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith; a

   b. sicrhau bod is-ddeddfwriaeth a wneir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru yn cael ei gwneud, ei chofrestru a'i chyhoeddi'n gywir.

56. Defnyddiwyd adnoddau a oedd yn bodoli eisoes:

[30] Paragraff 147

a. un Swyddog Gradd 7 ac un Swyddog Gweithredol Uwch, a oedd wedi bod yn gweithio ar y Bil, ar Cyfraith Cymru ac ar brosiectau eraill yn ymwneud â hygyrchedd y gyfraith;

b. dau Swyddog Gweithredol, a oedd wedi ymwneud â gwneud a chofrestru is-ddeddfwriaeth.

57. At hynny, recriwtiwyd Swyddog Gweithredol Uwch a dau Swyddog Gweithredol arall (yr adnoddau a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil). Daeth un o'r swyddi Swyddog Gweithredol gwreiddiol yn wag drwy'r ymarfer recriwtio hwn ac fe'i tynnwyd o'r strwythur wedi hynny.

58. O ddechrau 2020 tan ddiwedd 2022, oherwydd y pandemig a'r paratoadau ynghylch ymadael â'r UE, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr offerynnau statudol (yn enwedig) a oedd yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Cafodd hyn effaith ar waith y Swyddfa Codau Deddfwriaethol, nid yn unig o ran prosesu'r offerynnau hyn ond hefyd am fod y tîm, mewn rhai achosion, yn rhan o'r gwaith o baratoi, cyhoeddi ac esbonio'r is-ddeddfwriaeth ei hun. Daethpwyd ag Uwch-swyddog Gweithredol a Swyddog Gweithredol Uwch i mewn i ychwanegu at adnodd y tîm.

59. Rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022 ymunodd gwas sifil "Llwybr Carlam" â'r tîm, a bu'n gweithio, ymhlith materion eraill, ar y prosiect datblygiadau technolegol yr adroddwyd arno yn yr adroddiad blynyddol a osodwyd gerbron y Senedd yn 2022.

60. Dyma'r swyddi presennol o fewn y tîm sy'n ymwneud yn benodol â rheoli deddfwriaeth a hygyrchedd y gyfraith:
- un Swyddog Gradd 7
- un Uwch-swyddog Gweithredol
- tri Swyddog Gweithredol Uwch
- tri Swyddog Gweithredol

Noder: nid yw rhain yn swyddi amser llawn ac mae rhai deiliaid swyddi hefyd yn gweithio ar faterion heblaw rheoli deddfwriaeth a hygyrchedd y gyfraith, ac adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae gan y tîm un swydd wag.

61. Mae'r prosiectau o fewn y rhaglen gyfredol sy'n rhan o waith y Swyddfa Codau Deddfwriaethol yn cynnwys:

a. gwaith ar y Biliau cydgrynhoi, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Bil Deddfwriaeth (Diddymiadau) (Cymru), Bil Cynllunio (Cymru) a nodi prosiectau cydgrynhoi a chodeiddio pellach posibl;

b. anodi cyfraith Cymru a gyhoeddir ar legislation.gov.uk. Fel y nodwyd ym mhapur tystiolaeth[31] y Cwnsler Cyffredinol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gynharach eleni:

> *Mae tri aelod o staff ar radd Swyddog Gweithredol ac un aelod o staff ar radd Swyddog Gweithredol Uwch wedi cael hyfforddiant i weithio ar anodi, ac maent yn gwneud y gwaith hwn ochr yn ochr â dyletswyddau eraill, gwaith sy'n gysylltiedig â llunio, cofrestru a chyhoeddi is-ddeddfwriaeth yn bennaf.*

c. cynnal a datblygu gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales;

d. trefnu a chyhoeddi'r prosiectau cyfraith yn ehangach, sy'n cynnwys dosbarthu deddfwriaeth.

62. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Swyddfa hefyd yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt y Llywodraeth â Chomisiwn y Gyfraith.

*Costau ychwanegol nad ydynt yn rhan o'r rhaglen ffurfiol*

63. Er nad yw'n rhan o'r rhaglen ffurfiol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol yr wybodaeth ddiweddaraf[32] i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am waith sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Bangor:

> *Mae swm dangosol o £350,000 [wedi ei ddyrannu] yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 i Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer gwaith ar dechnoleg iaith, sy'n cynnwys cyfieithu peirianyddol. Defnyddir rhan o'r cyllid hwn i barhau i gasglu data ar hyfforddiant er mwyn datblygu technoleg cyfieithu peirianyddol parth-benodol ar gyfer y parth cyfiawnder - gwaith a ddechreuwyd gennym yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.*

[31] Ar gael yn: LJC6-02-23 - Papur 2 - Papur gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad 21 Rhagfyr 2022.pdf (senedd.cymru)

[32] Gweler paragraff 4.3 o LJC6-02-23 - Papur 2 - Papur gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad 21 Rhagfyr 2022.pdf (senedd.cymru)

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: RE/368/2023

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales

01Tachwedd 2023

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr ar ran y pwyllgor am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) ar Fil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor). Gweler isod fy atebion i'ch cwestiynau:

O ran eich pwynt cyntaf, barn Llywodraeth Cymru yw nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 12 a 13. Y rheswm am hynny yw bod y ddau gymal yn ymwneud â phensiynau gweithwyr llywodraeth leol ac mae hwnnw'n fater sydd wedi'i ddargadw o dan baragraff 134 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac nid yw'r darpariaethau'n ystyried materion datganoledig. Ceir nifer fach o bensiynau galwedigaethol nad ydynt wedi'u cynnwys ymhlith y rhai sydd wedi'u dargadw ym mharagraff 134 (e.e. pensiynau ar gyfer aelodau awdurdodau lleol) ond nid yw'r rhain yn berthnasol i gymalau 12 neu 13. At hynny, mae cymal 13(3) yn diwygio offeryn sydd ond yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ac felly y tu allan i gymhwysedd Senedd Cymru.

Yn ateb i'ch ail bwynt, mae Cymal 15(3)(a) yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddatgymhwyso adran 17(5)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae Cymal 115(2) o'r Ddeddf Gaffael yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru (neu Weinidog y Goron) anghymwyso'r ddyletswydd o dan adran 17(1) o Ddeddf 1988, i'r graddau y mae'n berthnasol i awdurdod perthnasol. Gall rheoliadau o'r fath gynnwys dadgymhwyso'r ddyletswydd yn adran 17(1) o Ddeddf 1988 fel y mae'n ymwneud â phob mater anfasnachol (gweler adran 17(5) o Ddeddf 1988) neu'r rhai a bennir (cymal 115(3)(d) yn gymwys). Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Gaffael sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru neu sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau neu i ddarparu canllawiau mewn perthynas ag awdurdodau contractio sy'n awdurdodau datganoledig yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, gellid dadlau bod cymal 15(3)(a) o'r Bil yn newid gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer yng nghymal 115(2) o'r Ddeddf Gaffael. Fodd bynnag, bydd y pŵer sydd wedi'i newid yn parhau i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddatgymhwyso darpariaethau adran 17(1) o Ddeddf 1988 ar gyfer awdurdodau contractio perthnasol yng Nghymru fel y gwelant yn dda.

Rwy'n gobeithio bod yr esboniadau hyn yn foddhaol.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

16 Hydref 2023

Annwyl Weinidog,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ei drafod gan y Pwyllgor ar 12 Hydref 2023.

Yn dilyn y drafodaeth honno, a fyddech cystal â rhoi eglurder inni ar y pwyntiau a ganlyn:

- Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 11 o'r Bil, ynghyd â chymalau 14, 15 a 16. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi a yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 12 a 13. A fyddai modd i chi gadarnhau eich barn ar y mater hwn, gan nodi eich rhesymau?

- Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhagor o eglurder ynghylch y modd y mae cymal 15 o'r Bil yn rhyngweithio ag adran 115 o'r Bil Caffael. Rydym yn nodi bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi barn Llywodraeth Cymru bod y cymal yn addasu gallu Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer sydd wedi'i gynnwys yn adran 115 o'r Bil a grybwyllir uchod. A fyddai modd i chi gadarnhau eich rhesymeg ynghylch y mater hwn?

Disgwylir i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 24 Tachwedd 2023. Yn sgil hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 3 Tachwedd 2023.

Yn gywir,

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus



Senedd Cymru
Welsh Parliament